

Arolwg Ymwelwyr Cymru 2019

Ymwelwyr sy'n Aros o'r DU



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 20/2021

Dyddiad Cyhoeddi: 18/03/2021

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg

This document is also available in English

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80082-792-9

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

Arolwg Ymwelwyr Cymru 2019 – Ymwelwyr sy'n Aros o'r DU

Awduron: Fiona McAllister, Adam Blunt, Catrin Davies -
Beaufort Research

Adroddiad Ymchwil Llawn: Beaufort Research Ltd. Arolwg Ymwelwyr Cymru 2019 – Ymwelwyr sy'n Aros o'r DU. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Rhif adroddiad GSR 20/2021.

Ar gael yn: <https://llyw.cymru/arolwg-ymwelwyr-cymru-2019>

Safbwyntiau'r ymchwilydd yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid rhai Llywodraeth Cymru o anghenraid

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch ag:

Ymchwil Twristiaeth

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 0300 060 4400

E-bost: tourismresearch@gov.wales

Cynnwys

1. Cyflwyniad/Cefndir.....	4
Cyflwyniad.....	4
Yr angen am ymchwil.....	4
Amcanion.....	5
2. Methodoleg.....	6
Trosolwg o'r dull.....	6
Cam 1: Arolwg wyneb yn wyneb.....	7
Cam 2: Cyfweiliadau dros y ffôn.....	8
Cam 3: Y cam ansoddol.....	9
Yr opsiwn i bartneriaid gymryd rhan yn yr arolwg.....	10
Y dadansoddi yn yr adroddiad.....	10
3. Canfyddiadau.....	12
Proffil ymwelwyr sy'n aros o'r DU.....	12
Proffil ymweliadau gan ymwelwyr sy'n aros o'r DU.....	19
Cymhellion dros ymweld â Chymru.....	22
Gweithgareddau y cymerodd ymwelwyr ran ynddynt tra'r oeddent yng Nghymru.....	29
Canfyddiadau am atyniadau yr ymwelwyd â hwy.....	33
Bwyta allan a llety.....	34
Cynaliadwyedd a naws am le.....	41
Cofio ymgyrchoedd marchnata a chynllunio gwyliau.....	42
Bodlonrwydd ar y profiad ymweld ar y cyfan.....	46
Dylanwadau ar fodlonrwydd.....	49
Tebygolrwydd o ddod yn ôl ac o argymhell Cymru.....	50
4. Casgliadau.....	53
Atodiad A.....	56
Atodiad B.....	61
Atodiad C.....	78
Atodiad D.....	81
Atodiad E.....	82

Rhestr o dablau

Tabl 3.1: Proffil ymwelwyr sy'n aros o'r DU	14
Tabl 3.2: Y prif weithgareddau y cymerwyd rhan ynddynt yng Nghymru	31
Tabl 3.3: Bodlonrwydd ar fwyta allan, 2019 o'i gymharu â 2016	36
Tabl 3.4: Bodlonrwydd cyfartalog ar y llety, 2019 o'i gymharu â 2016	40

Rhestr o ffigurau

Ffigur 3.1: Mathau o bartïon a ymwelodd â Chymru yn 2019	16
Ffigur 3.2: Dadansoddiad o ymwelwyr sy'n aros o'r DU yn 2019 yn ôl segmentau Croeso Cymru, ar y cyfan ac yn y tymor brig / bob pen i'r tymor brig	17
Ffigur 3.3: Mynychder ymweld â Chymru yn y 3 blynedd ddiwethaf, dros amser	18
Ffigur 3.4: Math o ymweliad â Chymru, yn ôl y cyfnod brig/y misoedd bob pen iddo, 2019	20
Ffigur 3.5: Dull trafnidiaeth a ddefnyddiwyd i deithio o amgylch Cymru yn ystod yr ymweliad, 2019	22
Ffigur 3.6: Rhesymau a ddewiswyd o restr dros ymweld â Chymru 2019	23
Ffigur 3.7: Adborth ansoddol ar amgylchedd/golygfeydd naturiol Cymru	24
Ffigur 3.8: Prif reswm wedi'i ddewis o restr dros ymweld â Chymru 2019 yn ôl segment marchnata	25
Ffigur 3.9: Ffactorau wedi'u dewis o restr a ddenodd ymwelwyr i ddod i Gymru yn 2019	26
Ffigur 3.10: Ffactorau wedi'u dewis o restr a ddenodd ymwelwyr i ddod i Gymru, yn ôl segment marchnata	27
Ffigur 3.11: Beth berswadiodd ymwelwyr i dreulio'u gwyliau llawn/gwyliau byr yng Nghymru yn 2019 (wedi'u dewis o restr)	28
Ffigur 3.12: Gweithgareddau y cymerwyd rhan ynddynt/lleoedd yr ymwelwyd â hwy yng Nghymru, yn ôl rhanbarth (yn seiliedig ar sampl gyfan yr ymwelwyr sy'n aros o'r DU)	33
Ffigur 3.13: Bodlonrwydd ar atyniadau yr ymwelwyd â hwy yng Nghymru yn 2019	34
Ffigur 3.14: Bodlonrwydd ar fwyta allan yng Nghymru yn 2019	35
Ffigur 3.15: Prif ddull o archebu llety yng Nghymru, dros amser	38
Ffigur 3.16: Pwysigrwydd sgoriau/cyfanswm sêr swyddogol a sgoriau a roddwyd gan deithwyr eraill wrth archebu llety, yn ôl segment marchnata	39
Ffigur 3.17: Bodlonrwydd ar lety yng Nghymru 2019	40
Ffigur 3.18: Pwysigrwydd elfennau unigryw o'r ymweliad yn 2019, yn ôl segment marchnata	42
Ffigur 3.19: Cofio ymgyrchoedd hysbysebu, marchnata a chyhoeddusrwydd ar gyfer Cymru cyn yr ymweliad a ddewiswyd o restr, yn ôl y wlad yr oedd yr ymwelydd yn tarddu ohoni	43
Ffigur 3.20: Cynllunio gwyliau: ffynonellau gwybodaeth a ddefnyddiwyd cyn ac yn ystod ymweliad â Chymru yn 2019	45
Ffigur 3.21: Bodlonrwydd ar yr ymweliad â Chymru yn 2019	47

Ffigur 3.22: Ysgogwyr allweddol bodlonrwydd ar y cyfan ar Gymru yn 2019.....	50
Ffigur 3.23: Tebygolrwydd o ddod yn ôl i Gymru yn 2019 yn ôl segment marchnata	51
Ffigur 3.24: Bodlonrwydd ar y cyfan a thebygolrwydd o ail-ymweld â Chymru / argymell Cymru 2019	52

1. Cyflwyniad/Cefndir

Cyflwyniad

- 1.1 Croeso Cymru, sef cangen Twristiaeth Llywodraeth Cymru, yw un o gyd-noddwyr nifer o astudiaethau sy'n cwmpasu Prydain gyfan y bwriedir iddynt bennu maint a gwerth twristiaeth. Cynhelir Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr (GBTS)¹, Arolwg Ymweliadau Undydd Prydain Fawr (GBDVS)² ac Arolygon Teithwyr Rhyngwladol (IPS)³ yn flynyddol gyda data'n cael ei gyflwyno'n fisol neu'n chwarterol.
- 1.2 Er mai'r astudiaethau hyn sy'n cynhyrchu'r ystadegau swyddogol ar faint a gwerth twristiaeth a'u bod hefyd yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am nodweddion ymwelwyr, nid ydynt yn mesur bodlonrwydd ymwelwyr, sy'n elfen allweddol o ran annog ymwelwyr i ddychwelyd. Mae ymwelwyr y mae eu hymweliad yn mynd y tu hwnt i'r disgwyliadau'n debygol iawn o ddychwelyd yn y dyfodol. Gall ymwelwyr bodlon ddod yn hyrwyddwyr brwdfrydig hefyd, gan bod clywed ar lafar gwlad, argymhellion personol ac adolygiadau ar-lein gan gwsmeriaid yn cael eu nodi'n gyson mewn ymchwil gan Croeso Cymru fel ffactorau hynod arwyddocaol o ran y broses o wneud penderfyniadau ynghylch gwyliau.
- 1.3 Mae hefyd yn amlwg bod y modd y darperir gwybodaeth i ymwelwyr cyn ac yn ystod eu hymweliad yn newid yng ngoleuni'r cyfoeth o ffynonellau gwybodaeth digidol sydd ar gael. Felly, mae'n hanfodol bwysig cael gwell dealltwriaeth am y defnydd y mae ymwelwyr yn ei wneud o wybodaeth a'r ffordd y mae'n effeithio ar eu mwynhad o'u hymweliad.

Yr angen am ymchwil

- 1.4 Felly, comisiynodd Croeso Cymru y diweddaraf mewn cyfres o arolygon ymwelwyr yn 2019, er mwyn diweddarau canfyddiadau 2016 a blynyddoedd cynharach a thracio unrhyw newidiadau ym mhroffil, agweddau a bodlonrwydd ymwelwyr.

¹ Adroddiad ar Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr 2019 (PDF, 2.8MB)

² Arolwg Ymwelwyr Undydd Prydain Fawr 2019 (PDF, 5MB)

³ Adroddiad Cryno ar Arolwg Teithwyr Rhyngwladol 2019

- 1.5 Fel mewn blynyddoedd blaenorol, rhoddwyd sylw i dri chategori o ymwelydd: ymwelwyr undydd o'r DU, ymwelwyr sy'n aros o'r DU ac ymwelwyr tramor.
- 1.6 Defnyddir canlyniadau'r gwaith ymchwil i ddarparu meincnodau ar gyfer strategaethau datblygu a marchnata Croeso Cymru.
- 1.7 Am y tro cyntaf, cynhaliwyd cam ychwanegol o ymchwil ansoddol yn 2019 i ategu'r prif arolwg ymwelwyr.

Amcanion

- 1.8 Roedd yr amcanion allweddol ar gyfer arolwg ymwelwyr 2019 fel a ganlyn:
- Proffilio ymwelwyr â Chymru (yn ôl demograffeg, oedran, cylch oes, maint y parti, rhyw a phrofiad blaenorol o ymweld â Chymru, ac yn ôl segmentau presennol Croeso Cymru o fewn y farchnad ar gyfer teithwyr o'r DU a theithwyr Rhyngwladol)
 - Dadansoddi cymhellion ymwelwyr dros ddewis Cymru, megis canfyddiadau, profiadau blaenorol, agosrwydd ac ati.
 - Asesu manylion am yr ymweliad presennol (e.e. lleoliad, gweithgareddau y cymerwyd rhan ynddynt, y math o drafnidiaeth a ddefnyddiwyd i deithio i Gymru ac yng Nghymru, y llety y buwyd yn aros ynddo)
 - Ymchwilio i agweddau a chael sgorau mewn perthynas â phrofiad ymwelwyr â Chymru, gan gynnwys yn systematig ar gyfer amrywiaeth o gyfleusterau sy'n ymwneud â thwristiaeth yn ogystal â 'naws am le' a materion cysylltiedig
 - Cymharu profiadau cyn yr ymweliad ag agweddau tuag at y profiad gwirioneddol
 - Ymchwilio i ffactorau megis a oedd ymwelwyr yn bwriadu dychwelyd i Gymru yn y dyfodol a pha mor debygol ydoedd y byddent yn argymhell Cymru i eraill
 - Proffilio'r wybodaeth a ddefnyddiwyd wrth gynllunio ymweliadau, yn enwedig y defnydd o ffynonellau gwybodaeth digidol
 - Ymchwilio i rôl twristiaeth a gweithgareddau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth o ran hwyluso agenda lechyd a Lles Llywodraeth Cymru.

- 1.9 Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y canfyddiadau ar gyfer **ymwelwyr sy'n aros o'r DU**— mae adroddiadau ar wahân ar gael ar gyfer ymwelwyr undydd o'r DU ac ymwelwyr tramor.

2. Methodoleg

Trosolwg o'r dull

- 2.1 Roedd yr ymchwil graidd yn defnyddio dull ac iddo ddau gam:

Cam 1: Arolwg wyneb yn wyneb

Casglwyd gwybodaeth ddemograffig gyffredinol megis oedran, rhyw, dosbarth cymdeithasol, ethnigrwydd, anabledd, preswylfa a chyfansoddiad y parti a oedd yn ymweld â Chymru mewn arolwg wyneb yn wyneb byr, yn ogystal ag ymwybyddiaeth o ddeunydd hysbysebu, marchnata a chyhoeddusrwydd ar gyfer Cymru (cyn yr ymweliad). Ceir holiadur Cam 1 yn Atodiad A.

Cam 2: Arolwg dilynol dros y ffôn

Cynhaliwyd cyfweiliad hirach a manylach dros y ffôn â sampl o ymwelwyr y cyfweiliad â hwy yng Ngham 1, ar ôl i'w hymweliad ddod i ben. Casglodd hyn adborth ôl-ymweliad, ar eu profiad ar y cyfan, gan gynnwys canfyddiadau am Gymru fel cyrchfan i dwristiaid, pa mor debygol ydoedd y byddent yn ailymweld â Chymru ac a fyddent yn argymhell Cymru i ffrindiau a pherthnasau. Ceir holiadur Cam 2 yn Atodiad B.

- 2.2 Cynhaliwyd trydydd cam o ymchwil ansoddol archwiliadol hefyd fel rhan o brosiect 2019. Ei nod oedd cyfoethogi'r arolwg meintiol ag enghreifftiau o brofiadau ymwelwyr yng Nghymru a sicrhau bod llais ymwelwyr yn cael ei glywed mewn mwy o fanylder.

- 2.3 Roedd methodoleg arolwg 2019 yr un fath â'r dull a ddefnyddiwyd yn arolwg 2016, a oedd yn newid o flynyddoedd cynharach⁴.

⁴ Yn 2016 fe ail-ddyluniwyd yr arolwg – cafodd cyfweiliadau Cam 1 eu byrhau i ganolbwyntio ar gasglu data proffil gan sampl fawr o ymwelwyr yn ystod eu taith/ymweliad; ar yr un pryd, cafodd cyfweiliadau Cam 2 (ar ôl yr ymweliad) eu hwyhau i'n galluogi i gasglu gwybodaeth fanwl am weithgareddau, profiad a bodlonrwydd ar yr ymweliad ar y cyfan.

Cam 1: Arolwg wyneb yn wyneb

- 2.4 Cynhaliwyd cyfanswm o 7,683 o gyfweiliadau ag ymwelwyr 16 oed a throsodd mewn 70 o leoliadau twristiaeth ledled Cymru. Ceir dadansoddiad llawn o'r holl leoliadau a gynhwyswyd yn yr ymchwil yn Atodiad C.
- 2.5 Roedd nifer y cyfweiliadau a gynhaliwyd â phob un o'r tair cynulleidfya darged yn 2019 fel a ganlyn:
- Ymwelwyr undydd o'r DU: 3,951 o gyfweiliadau
 - Ymwelwyr sy'n aros o'r DU: 3,103 o gyfweiliadau
 - Ymwelwyr tramor: 629 o gyfweiliadau
- 2.6 Er mwyn bod yn gymwys i gael eu cyfweld, roedd angen i ymwelwyr fodloni un o'r meini prawf canlynol:
- Yn ymweld fel rhan o wyliau, **gan aros yng Nghymru** oddi cartref
 - Rhan o wyliau i ymweld â ffrindiau neu berthnasau, **gan aros yng Nghymru** oddi cartref
 - Ar **ymweliad undydd nad yw'n un arferol** yng Nghymru / â Chymru ac yn treulio **tair awr neu fwy** oddi cartref / i ffwrdd o'u llety (gan gynnwys teithio).
- 2.7 Ni chafodd unrhyw un a oedd yn ymweld â Chymru ar ymweliad undydd arferol (e.e. siopa), ar fusnes neu er mwyn astudio ei gynnwys yn sampl yr arolwg. Hefyd, roedd angen i ymwelwyr fod yn barod i gymryd rhan yn arolwg ffôn dilynol Cam 2 a rhoi rhif ffôn dilys y gellid ei ddefnyddio i gysylltu â hwy, er mwyn cymryd rhan.
- 2.8 Pennwyd cwtâu yn ôl rhanbarth yng Nghymru⁵ a math o ymwelydd. Roedd cwtâu rhanbarthol yn gymesur ac yn sicrhau bod proffil y sampl yn cynrychioli'r holl ymwelwyr â Chymru o ran treiddiad daearyddol. Gan mai ymwelwyr undydd o'r DU yw trwch yr ymwelwyr â Chymru, roedd cwtâu uwch ar gyfer ymwelwyr sy'n aros o'r DU ac ymwelwyr tramor, er mwyn sicrhau bod ymwelwyr o bob un o'r tair cynulleidfya wedi'u cynrychioli'n

⁵ **Gogledd Cymru:** Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Wrecsam

Canolbarth Cymru: Ceredigion, Powys

De-orllewin Cymru: Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, Abertawe

De-ddwyrain Cymru: Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Caerdydd, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf, Torfaen, Bro Morgannwg

ddigonol yn sampl yr arolwg. Ar y cam dadansoddi, cafodd y data ei bwysoli yn ôl rhanbarth er mwyn mireinio unrhyw anghydbwysedd rhwng y sampl a phroffil rhanbarthol ymwelwyr.

- 2.9 Gwnaed gwaith maes Cam 1 rhwng 4 Mai a 31 Hydref 2019. Rhoddwyd dewis i bob ymwelydd gynnal ei gyfweiliad yn Gymraeg neu yn Saesneg: cynhaliwyd 129 o gyfweiliadau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Cam 2: Cyfweiliadau dros y ffôn

- 2.10 Cynhaliwyd cyfanswm o 3,909 o gyfweiliadau dros y ffôn yng Ngham 2 ag ymwelwyr a oedd wedi cymryd rhan yng Ngham 1 (cyfradd drosglwyddo o 50.9% ar y cyfan.)
- 2.11 Roedd nifer y cyfweiliadau a gynhaliwyd gyda phob un o'r tair cynulleidfya fel a ganlyn:
- Ymwelwyr undydd o'r DU: 2,007 o gyfweiliadau
 - Ymwelwyr sy'n aros o'r DU: 1,642 o gyfweiliadau
 - Ymwelwyr tramor: 260 o gyfweiliadau
- 2.12 Cynhaliwyd y cyfweiliadau gan ddefnyddio technoleg CATI (Cyfweld dros y Ffôn gyda Chymorth Cyfrifiadur) o uned ymchwil dros-y-ffôn fewnol Beaufort. Pennwyd cwtâu eto yn ôl math o ymwelydd, er mwyn sicrhau bod sampl gadarn o gyfweiliadau yn cael ei chynnal â phob un o'r tair cynulleidfya darged. Ar y cam dadansoddi, cafodd y data ei bwysoli yn ôl rhanbarth er mwyn mireinio unrhyw anghydbwysedd a sicrhau bod sampl yr arolwg yn gynrychiadol o ran treiddiad ymwelwyr rhanbarthol.
- 2.13 Yn achos ymwelwyr tramor, trefnwyd fod rhai sifftiau cyfweld yn cael eu cynnal yn gynnar yn y bore ac yn hwyr gyda'r nos er mwyn ystyried gwahaniaethau mewn amser a chynyddu'r gyfradd ymateb i'r eithaf.
- 2.14 Gwnaed y gwaith maes ar gyfer Cam 2 rhwng 17 Mehefin a 22 Tachwedd 2019. Cafodd y cyfweiliadau eu gwasgaru fel bod o leiaf bythefnos wedi mynd heibio rhwng cyfweiliadau Cam 1 a chyfweiliadau Cam 2, er mwyn caniatáu digon o amser i ymwelwyr sy'n aros o'r DU ac ymwelwyr tramor ddychwelyd adref ar ôl eu hymweliad â Chymru.

- 2.15 Cafodd yr holl ymwelwyr Cymraeg (a nodwyd yng Ngham 1) gynnig y dewis i gymryd rhan yn Gymraeg neu yn Saesneg: cynhaliwyd 26 o gyfweiliadau yn Gymraeg.

Cam 3: Y cam ansoddol

- 2.16 Defnyddiwyd cymysgedd o ddulliau ar gyfer yr ymchwil ansoddol atodol i gael cymaint o adborth manwl â phosibl.
- 2.17 Cafodd 40 o ymwelwyr sy'n aros eu recriwtio mewn nifer o wahanol leoliadau yn ystod eu gwyliau a gofynnwyd yn gyntaf iddynt gadw dyddiadur o'u hymweliad â Chymru, gan nodi eu gweithgareddau beunyddiol. Wedyn fe gynullwyd fforwm ar-lein unwaith yr oedd ymwelwyr wedi dychwelyd adref, i edrych yn ôl ar eu profiadau. Gadawodd cyfranogwyr negeseuon ar destunau allweddol y fforwm dros nifer o ddiwrnodau.
- 2.18 Roedd y cyfranogwyr i gyd yn byw'r tu allan i Gymru – y rhan fwyaf yn Lloegr a rhai dramor (Canada, yr Almaen, yr Eidal, yr Iseldiroedd ac UDA).
- 2.19 Roedd y sampl a gyflawnwyd yn cynnwys cymysgedd o ran hyd yr arhosiad, yr adeg yn eu hoes, y rhesymau dros ymweld, gwahanol leoliadau yr ymwelwyd â hwy a nifer yr ymweliadau blaenorol â Chymru. Cafodd y rhai a oedd yn ymweld i aros gyda ffrindiau a pherthnasau eu sgrinio allan.
- 2.20 Fe wnaed y gwaith maes ar gyfer Cam 3 rhwng diwedd mis Gorffennaf a mis Hydref 2019.
- 2.21 Mae adroddiad ar wahân ar gael ar y cam ansoddol⁶. Mae sylwadau gair-am-air o negeseuon yn y fforwm ar-lein a chofnodion mewn dyddiaduron gan ymwelwyr sy'n aros o'r DU a gyfranogodd yn y cam ansoddol wedi cael eu cynnwys yn yr adroddiad ar ymwelwyr sy'n aros o'r DU lle y bo'n berthnasol, i ehangu ar ganfyddiadau allweddol yr arolwg ymwelwyr.
- 2.22 Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cynnwys ffotograffau a dynnwyd gan gyfranogwyr tra'r oeddent yn ymweld â Chymru. Cafwyd caniatâd i ddefnyddio'u ffotograffau yn y ffordd yma.

⁶ <https://llyw.cymru/arolwg-ymwelwyr-cymru-2019>

Yr opsiwn i bartneriaid gymryd rhan yn yr arolwg

2.23 Cynigiwyd y cyfle i Awdurdodau Lleol, Partneriaethau Twristiaeth a Sefydliadau Twristiaeth ledled Cymru gymryd rhan yn Arolwg Ymwelwyr 2019, trwy gomisiynu naill ai:

- Cyfweiliadau mewn mannau samplu ychwanegol (nad oeddent wedi'u cynnwys yn lleoliadau samplu craidd Croeso Cymru) yng Ngham 1
- Cyfweiliadau ychwanegol ym mannau samplu craidd Croeso Cymru yng Ngham 1
- Cwestiynau ychwanegol ar gyfer mannau samplu newydd / craidd yng Ngham 2
- Adroddiad yn canolbwyntio ar eu hardal.

2.24 Dewisodd cyfanswm o 16 partner gymryd rhan yn y gwaith ymchwil, gan ychwanegu 13 o leoliadau cyfweld ychwanegol at y 57 o leoliadau craidd Croeso Cymru. Ceir manylion lleoliadau cyfweld lle cymerodd partneriaid ran yn yr arolwg yn Atodiad C.

Y dadansoddi yn yr adroddiad

2.25 Caiff canlyniadau arolwg 2019 eu dadansoddi mewn nifer o ffyrdd yn yr adroddiad, gan gynnwys:

- Dros amser (gan gymharu canlyniadau 2019 â chanlyniadau 2016 a 2013, lle y bo canlyniadau ar gael)
- Yn ôl yr adeg o'r flwyddyn y cynhaliwyd yr ymweliad (misoedd brig o'i gymharu â'r misoedd bob pen iddynt⁷)
- Yn ôl segmentau marchnata Croeso Cymru yn y DU⁸

⁷ Fe'u diffinnir fel a ganlyn: Brig – Mehefin, Gorffennaf ac Awst; Bob pen i'r misoedd brig – Mai, Medi a Hydref

⁸ Mae segmentau'n deillio o gyfuniad o oedran, adeg yn eu bywydau a gradd gymdeithasol fel a ganlyn:

1 – Grŵp ôl-deulu, 35-54, dim plant

2 – Grŵp ôl-deulu, 55+, dim plant

3 – Teithio gyda phlant, unrhyw oedran, ABC1

4 – Teithio gyda phlant, unrhyw oedran, C2DE

5 – Pobl iau, 16-34, dim plant

- Yn ôl y rhanbarth yng Nghymru yr ymwelwyd ag ef.
- 2.26 Hefyd, darperir canlyniadau yn ôl rhanbarth marchnata Croeso Cymru⁹ ar gyfer mesurau allweddol penodol yn Atodiad E.
- 2.27 Mae'r tabliadau data llawn ar gyfer yr arolwg yn darparu canlyniadau sydd wedi'u dadansoddi yn ôl ystod eang o newidynnau.

⁹ Mae 13 o ranbarthau marchnata Croeso Cymru: Caerdydd, prifddinas Cymru; Cymoedd De Cymru; Dyffryn Gwy a Dyffryn Wysg; Arfordir Treftadaeth Morgannwg; Caerfyrddin; Sir Benfro; Bae Abertawe; Ceredigion/ Bae Ceredigion; Canolbarth Cymru a Bannau Brycheiniog; Ynys Môn; Gogledd Ddwyrain Cymru; Mynyddoedd ac Arfordir Eryri; Llandudno a Bae Colwyn

3. Canfyddiadau

Proffil ymwelwyr sy'n aros o'r DU

- 3.1 Roedd y mwyafrif (84%) o'r ymwelwyr sy'n aros o'r DU a ddaeth i Gymru yn 2019 yn bobl o Loegr, fel mewn blynyddoedd blaenorol. Roedd 14% o'r ymwelwyr sy'n aros o'r DU yn bobl o Gymru, tra bo 1% yn unig wedi dod o rannau eraill o'r DU – o'r Alban bron i gyd, gyda nifer fach iawn o Ogledd Iwerddon. Roedd y gyfran o drigolion Cymru a dreuliodd wyliau yng Nghymru'n uwch ym misoedd brig yr haf nag yn y misoedd bob pen i'r misoedd brig. I'r gwrthwyneb, roedd cyfrannau uwch o ymwelwyr sy'n aros o Loegr yn y misoedd bob pen i'r misoedd brig nag yn ystod y misoedd brig eu hunain (gweler Tabl 3.1).
- 3.2 Mae proffil ymwelwyr o'r DU sy'n aros yng Nghymru'n dal i fod yn hŷn ac yn fwy cefnog o ran gradd economaidd-gymdeithasol na phoblogaeth y DU yn gyffredinol. Dim ond 16% o'r ymwelwyr sy'n aros o'r DU yn 2019 oedd rhwng 16 a 34 oed (o'i gymharu â 31% o oedolion yn y DU¹⁰ sydd yn yr ystod oedran hwn) tra bo oddeutu pedwar ym mhob deg (44%) rhwng 35 a 54 oed (o'i gymharu â 32% o oedolion yn y DU). Roedd y 39% sy'n weddill dros 55 oed.
- 3.3 Mae proffil oedran ymwelwyr sy'n aros o'r DU yn iau yn 2019 nag oedd yn 2013, serch hynny, pan oedd pobl dros 55 oed yn rhoi cyfrif am bron i hanner (46%) y bobl o'r DU a ddaeth ar wyliau i Gymru. Roedd ymwelwyr yn y misoedd bob pen i'r misoedd brig yn 2019 yn cynnwys cyfran uwch o ymwelwyr hŷn nag a gafwyd yn y misoedd brig eu hunain.
- 3.4 Roedd gan ymwelwyr sy'n aros o Gymru broffil oedran ychydig yn iau nag ymwelwyr sy'n aros o weddill y DU: roedd 20% o ymwelwyr sy'n aros o Gymru yn 2019 rhwng 16 a 34 oed o'i gymharu ag 16% o ymwelwyr o Loegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon; roedd 40% o'r ail grŵp yn 55 oed a throsodd o'i gymharu â 37% o'r grŵp cyntaf.

¹⁰ Ffynhonnell: Amcangyfrifon Poblogaeth Canol Blwyddyn y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer y DU 2018 -

<https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/dataset/populationestimatesforukenglandandwalesscotlandandnorthernireland>

- 3.5 Roedd menywod yn cyfrif am 59% o'r ymwelwyr sy'n aros o'r DU a gafodd eu cyfweld yn 2019. Mae menywod yn 51% o boblogaeth y DU ¹¹.
- 3.6 Roedd bron i dri ymhob pedwar (73%) o'r ymwelwyr sy'n aros o'r DU a ddaeth i Gymru yn 2019 yn perthyn i raddau cymdeithasol ABC1¹², o'i gymharu â 55% o boblogaeth y DU¹³. Roedd cyfran uwch o ymwelwyr ABC1 o'r DU ar eu gwyliau yng Nghymru yn ystod y misoedd bob pen i'r misoedd brig nag yn y misoedd brig eu hunain (sef 76% o'i gymharu â 72% yn y drefn honno). Roedd ymwelwyr o raddau cymdeithasol C2DE yn rhoi cyfrif am ychydig dros un ym mhob pedwar ymwelydd sy'n aros ar y cyfan yn 2019 (27%) ond roedd eu cyfran yn gostwng i 23% yn y misoedd bob pen i'r misoedd brig.
- 3.7 Er bod gogwydd cryf tuag at raddau ABC1 yn amlwg ym mhroffil ymwelwr sy'n aros o Gymru hefyd, roedd cyfran uwch o ymwelwyr sy'n aros o Gymru yn perthyn i raddau cymdeithasol C2DE na'r rhai o weddill y DU. Roedd 69% o'r ymwelwyr sy'n aros o Gymru yn ABC1, o'i gymharu â 74% o'r ymwelwyr o weddill y DU, tra bo'r gyfran o ymwelwyr a oedd yn C2DE yn 31% a 25% yn y drefn honno.
- 3.8 Roedd 7% o'r ymwelwyr sy'n aros o'r DU yn 2019 yn siarad Cymraeg – 3% yn rhugl. Roedd cyfran y siaradwyr Cymraeg yn codi i 33% ymhlith ymwelwyr sy'n aros o Gymru, gyda cyfrannau a oedd bron yn gyfartal o siaradwyr Cymraeg rhugl a siaradwyr Cymraeg nad ydynt yn rhugl (17% ac 16%). Mae'r rhain ar lefelau tebyg i donnau blaenorol.

¹¹ Ffynhonnell: Amcangyfrifon Poblogaeth Canol Blwyddyn y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer y DU yn 2018. Efallai y dylanwedir y gyfran uwch o fenywod yn sampl yr arolwg ymwelwyr gan fwy o barodrwydd ymhlith aelodau benywaidd o barti i gymryd rhan yn yr arolwg.

¹² System ddosbarthu sy'n seiliedig ar alwedigaeth a ddatblygwyd i'w defnyddio ar yr Arolwg Darllenyddiaeth Cenedlaethol (NRS) yw gradd gymdeithasol. Diffinnir graddau cymdeithasol fel a ganlyn:

AB: Galwedigaethau rheoli, gweinyddol neu broffesiynol uwch a chanolradd

C1: Galwedigaethau goruchwyllo, galwedigaethau clercaidd a galwedigaethau rheoli, gweinyddol neu broffesiynol ar lefel iau

C2: Gweithwyr llaw crefftus

DE: Gweithwyr llaw lled-grefftus a heb sgiliau, pensiynwyr y wladwriaeth, gweithwyr dros dro a gweithwyr ar y graddau isaf, pobl ddi-waith sydd ond yn cael budd-daliadau'r wladwriaeth

¹³ Ffynhonnell: NRS 2016 www.nrs.co.uk/nrs-print/lifestyle-and-classification-data/social-grade/

3.9 Fel mewn blynyddoedd cynharach, roedd ymwelwyr o grwpiau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn rhoi cyfrif am gyfran fach iawn o'r rhai a ddaeth ar wyliau i Gymru o'r DU yn 2019 (2%).

Tabl 3.1: Proffil ymwelwyr sy'n aros o'r DU

%	Tueddiadau dros Amser			Tymor brig o'i gymharu â phob pen i'r tymor brig 2019	
	2019	2016	2013	Tymor brig	Bob pen i'r tymor brig
Tarddiad ymwelwyr					
Cymru	14	14	16	15	12
Lloegr	84	84	84	83	86
Yr Alban/GI	1	3	Amh.	3	1
Oedran					
16 - 34	16	18	12	17	16
35 - 54	44	41	41	46	40
55+ oed	39	40	46	38	44
Rhyw					
Gwryw	41	46	Amh.	40	42
Benyw	59	54	Amh.	60	58
Gradd gymdeithasol					
ABC1	73	72	67	72	76
C2DE	27	27	31	28	23
Ethnigrwydd					
Gwyn	97	96	97	97	97
Heb fod yn wyn/arall	2	4	3	4	2

Sail: yr holl ymwelwyr sy'n aros o'r DU; 2019 - Cam I: 3,103; 2016 - Cam I: 2,892; 2013 - 1,618


Nodiadau am y tabl: Amh. = data heb ei gasglu yn 2013; mae ffigyrau mewn coch yn dynodi newid dros amser neu wahaniaeth amlwg rhwng ymwelwyr yn y tymor brig ac yn y misoedd bob pen i'r tymor brig

3.10 Mae'r gyfran o ymwelwyr sy'n aros o'r DU sy'n dod ag anifeiliaid anwes ar wyliau i Gymru wedi codi'n sydyn – yn 2019 roedd gan un ymhob pump o'r ymwelwyr sy'n aros (22%) anifail anwes gyda hwy (yr oeddent i gyd yn gŵn), o'i gymharu â 15% yn 2016. Roedd ymwelwyr sy'n aros yng Nghymru yn y misoedd bob pen i'r cyfnod brig yn fwy tebygol o fod yn teithio gydag anifeiliaid anwes na'r rhai a oedd yn ymweld yn ystod misoedd brig yr haf (sef 25% o'i gymharu â 21% yn y drefn honno).

- 3.11 Yng Ngham 2, gofynnwyd i'r holl ymwelwyr sy'n aros ddweud faint o groeso y mae Cymru yn ei roi i anifeiliaid anwes yn eu tyb hwy trwy roi sgôr o 1 i 10 (lle mae 1 yn golygu anfodlon iawn a 10 yn golygu bodlon iawn). Rhoddodd chwech ymhob deg (58%) o'r rhai a deithiodd gydag anifeiliaid anwes sgôr o 9 neu 10 i Gymru, gyda 35% arall yn rhoi sgôr o 5 i 8 a 3% yn rhoi sgôr o 5 neu lai i Gymru ar y dimensiwn hwn.
- 3.12 A throi at grwpiau ymwelwyr, roedd 13% o'r grwpiau ymwelwyr sy'n aros o'r DU yn cynnwys rhywun ag anabledd: roedd gan 7% symudedd diffygiol, roedd gan 5% salwch hirdymor, roedd gan 2% nam ar eu clyw ac roedd gan 1% nam ar eu golwg neu anawsterau dysgu. Mae hyn yn debyg i nifer yr achosion ymhlith poblogaeth y DU (sef 12% yn ôl yr amcangyfrif¹⁴).
- 3.13 Pan ofynnwyd iddynt pa mor fodlon oeddent ar hygyrchedd Cymru i bobl ag anabledd neu salwch hirdymor, roedd bodlonrwydd ymhlith y grŵp hwn yn gymharol isel. Rhoddodd llai nag un ym mhob pedwar (24%) o'r rhai a fu ar wyliau yng Nghymru gyda rhywun ag anabledd yn eu parti sgôr a oedd yn dynodi eu bod yn fodlon iawn (9 neu 10). Rhoddodd y rhan fwyaf sgôr a oedd yn dynodi eu bod yn weddol fodlon (rhwng 5 ac 8) tra bo 4% wedi rhoi sgôr o 4 neu is (ni atebodd y gweddill).
- 3.14 Teuluoedd a chyplau ar ymweliadau aros a ddenwyd yn bennaf gan Gymru yn 2019, fel mewn blynyddoedd blaenorol. Mae cyfran y cyplau sy'n dod ar wyliau i Gymru'n gostwng, fodd bynnag – 34% ydyw bellach, o'i gymharu â 38% yn 2016 a 42% yn 2013. Roedd teuluoedd yn rhoi cyfrif am hanner yr ymwelwyr sy'n aros o'r DU yn 2019, i fyny o 41% yn 2016, gyda chynnydd yng nghyfran y teuluoedd â phlant hŷn sy'n dod am wyliau byr (12% erbyn hyn, wedi codi o 4% yn 2016) (gweler Ffigur 3.1).

¹⁴ Amcangyfrifon ar gyfer Nifer yr Achosion o Anabledd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, 2011-12 (sy'n deillio o'r Arolwg Adnoddau Teulu)
https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/321594/disability-prevalence.pdf

Ffigur 3.1: Mathau o bartïon a ymwelodd â Chymru yn 2019




Sail: Arolwg Ymwelwyr Cymru 2019 – yr holl ymwelwyr sy'n aros o'r DU Cam I (3,103)

- 3.15 Roedd cyplau'n fwy tebygol o ymweld â Chymru yn ystod y misoedd bob pen i'r tymor brig nag yn ystod y tymor brig yn 2019 (40% yn y misoedd bob pen i'r tymor brig a 31% yn ystod y tymor brig yn y drefn honno), tra bo'r gwrthwyneb yn wir yn achos teuluoedd â phlant bach (sef 29% yn ystod y tymor brig ac 17% yn y misoedd bob pen i'r tymor brig). Roedd teuluoedd â phlant bach yn rhoi cyfrif am 30% o'r ymwelwyr sy'n aros o Gymru ond dim ond 24% o'r ymwelwyr sy'n aros o weddill y DU.
- 3.16 Mae maint cyfartalog partïon ymhlith ymwelwyr sy'n aros o'r DU yn 2019 wedi codi i 4.0, i fyny o 3.5 yn 2016. Mae hyn yn bennaf o ganlyniad i gynnydd yn nifer cyfartalog yr oedolion ym mhob parti (3.1 erbyn hyn, i fyny o 2.8 yn 2016). Mae nifer cyfartalog y plant ym mhob parti wedi aros yn sefydlog, ar 0.9. Yn wahanol i 2016, roedd meintiau partïon ar gyfer grwpiau ymwelwyr o Loegr yn 2019 ychydig yn fwy na'r rhai o Gymru (sef 3.1 ar gyfer Lloegr o'i gymharu â 2.8 ar gyfer Cymru). Roedd partïon a oedd yn aros yn ystod y misoedd bob pen i'r cyfnod brig yn fwy na'r rhai a oedd yn aros yn ystod misoedd brig yr haf (sef 4.2 o'i gymharu â 3.8). Ar wahân i grwpiau/cymdeithasau wedi'u trefnu, teuluoedd â phlant oedd y grwpiau ymwelwyr mwyaf (gyda phob parti'n cynnwys 4.6 o bobl ar gyfartaledd)

- 3.17 Roedd ymwelwyr sy'n aros o'r DU wedi'u dosbarthu i bum grŵp hefyd, yn ôl segmentau marchnata Croeso Cymru yn y DU. Gan adlewyrchu proffil ymwelwyr o ran eu hoedran a'u gradd gymdeithasol, roedd bron i bedwar ymhob ymwelydd sy'n aros o'r DU yn *Grŵp Ôl-deulu, 55+ oed, dim plant* (38%) tra bo tua thraean yn *Teithio gyda phlant, ABC1* (31%). Roedd pob segment arall yn rhoi cyfrif am gyfrannau llai o lawer o ymwelwyr sy'n aros.
- 3.18 Roedd bron hanner yr holl ymwelwyr sy'n aros â Chymru yn ystod y misoedd bob pen i'r misoedd brig (45%) yn perthyn i'r *Grŵp ôl-deulu, 55+, dim plant*, tra bo'r un peth yn wir am y segmentau *Teithio gyda phlant, ABC1* a *Teithio gyda phlant, C2DE* yn ystod cyfnod brig yr haf (gweler Ffigur 3.2).

Ffigur 3.2: Dadansoddiad o ymwelwyr sy'n aros o'r DU yn 2019 yn ôl segmentau Croeso Cymru, ar y cyfan ac yn y tymor brig / bob pen i'r tymor brig




Sail: Arolwg Ymwelwyr Cymru 2019 – yr holl ymwelwyr sy'n aros o'r DU Cam I (3,103)

- 3.19 Roedd ymwelwyr sy'n aros o Gymru ychydig yn fwy tebygol o berthyn i'r segmentau *Pobl iau, 16-34, dim plant* a *Teithio gyda phlant, C2DE* nag ymwelwyr sy'n aros o Loegr. I'r gwrthwyneb, roedd ymwelwyr sy'n aros o Loegr yn fwy tebygol o berthyn i'r segmentau *Grŵp ôl-deulu, 35-54, dim plant* a *Grŵp ôl-deulu, 55+, dim plant*.
- 3.20 Roedd lefelau'r ymweliadau dychwel â Chymru yn 2019 yn uchel; roedd tri ymhob pedwar (75%) o'r ymwelwyr sy'n aros o'r DU wedi ymweld â Chymru

ddwywaith neu fwy ar gyfer gwyliau hamdden yn y tair blynedd ddiwethaf. Roedd un ymhob pedwar (25%) yn ymwelwyr sy'n aros yn aml iawn, a hwythau wedi bod ar saith ymweliad neu fwy â Chymru dros y blynedd ddiwethaf (gweler Ffigur 3.3).

- 3.21 Roedd un ymhob pedwar ymwelydd sy'n aros o'r DU (25%) ar eu gwyliau hamdden cyntaf yng Nghymru pan gyfwelwyd â hwy yn 2019 – mae hyn wedi gostwng o oddeutu 30% yn 2016 a 2013.
- 3.22 Nifer cyfartalog yr ymweliadau aros yng Nghymru yn y tair blynedd ddiwethaf gan ymwelwyr sy'n aros o'r DU oedd 5.3.

Ffigur 3.3: Mynychder ymweld â Chymru yn y 3 blynedd ddiwethaf, dros amser - %



Sail: Arolwg Ymwelwyr Cymru 2019 – yr holl ymwelwyr sy'n aros o'r DU Cam II (1,642)


- 3.23 Roedd ymwelwyr sy'n aros o Gymru'n fwy tebygol nag ymwelwyr sy'n aros o weddill y DU o fod yn ymwelwyr dychwel – roedd bron i naw ymhob deg o'r grŵp cyntaf (88%) wedi cael dau wyliau hamdden neu fwy yng Nghymru yn ddiweddar, o'i gymharu ag oddeutu saith ymhob deg ymwelydd (72%) o weddill y DU. Roedd ymwelwyr sy'n aros o Gymru hefyd yn ymwelwyr mwy mynych ar gyfer gwyliau hamdden, a hwythau wedi bod ar 7.8 ymweliad ar gyfartaledd dros y tair blynedd ddiwethaf, o'i gymharu â chyfartaledd o 4.9 ymweliad ar gyfer ymwelwyr sy'n aros o weddill y DU.

- 3.24 Nid oedd unrhyw wahaniaeth yn amlwg ym mynychder yr ymweliadau rhwng ymwelwyr yn y misoedd bob pen i'r tymor brig ac ymwelwyr yn ystod y tymor brig.

Proffil ymweliadau gan ymwelwyr sy'n aros o'r DU

- 3.25 Cyrchfan gwyliau byr yn hytrach na chyrchfan prif wyliau yw Cymru'n bennaf i ymwelwyr sy'n aros o'r DU: disgrifiodd bron i chwech ymhob deg (56%) eu hymweliad cyfredol â Chymru fel gwyliau byr, mwy na dwywaith y gyfran a ddywedodd mai hwn oedd eu prif wyliau (24%). Ychydig iawn y mae'r cyfrannau hyn wedi newid dros amser.
- 3.26 Roedd ymwelwyr o'r DU a oedd yn aros yn ystod cyfnod brig yr haf fwy na dwywaith yn fwy tebygol o fod yn treulio eu prif wyliau'r flwyddyn honno yng Nghymru na'r rhai a oedd yn ymweld yn ystod y misoedd bob pen i'r cyfnod brig (sef 30% o'i gymharu ag 13% yn y drefn honno). Fe wnaeth bron i ddwy ran o dair o'r ymwelwyr sy'n aros o'r DU yn y misoedd bob pen i'r cyfnod brig (65%) ddisgrifio'u hymweliad fel gwyliau byr (gweler Ffigur 3.4).
- 3.27 Roedd ymwelwyr sy'n aros o Gymru'n fwy tebygol nag ymwelwyr sy'n aros o rannau eraill o'r DU o fod yn treulio gwyliau byr yng Nghymru (sef 71% o'i gymharu â 54%) ac yn llai tebygol o fod yn treulio'u prif wyliau yno (sef 15% o'i gymharu â 25%).

Ffigur 3.4: Math o ymweliad â Chymru, yn ôl y cyfnod brig/y misoedd bob pen iddo, 2019 - %




Sail: Arolwg Ymwelwyr Cymru 2019 – yr holl ymwelwyr sy'n aros o'r DU Cam II (1,642)

- 3.28 O segmentau marchnata Croeso Cymru, y rhai a oedd yn teithio gyda phlant (*Teithio gyda phlant, ABC1* a *Teithio gyda phlant, C2DE*) oedd fwyaf tebygol o fod yn treulio eu prif wyliau yng Nghymru, a *Pobl iau, 16-34, dim plant* oedd fwyaf tebygol o fod yn treulio gwyliau byr.
- 3.29 Gofynnwyd i ymwelwyr oedd yn aros ai Cymru neu wlad arall yn y DU neu Ewrop oedd eu prif gyrchfan wyliau ar gyfer y daith hon, neu a oeddent ar wyliau teithiol yn ymweld â gwahanol wledydd. Ar gyfer y rhan fwyaf o ymwelwyr sy'n aros o'r DU (55%), Cymru oedd eu prif neu eu hunig gyrchfan gwyliau, yn enwedig yn y cyfnod brig (60%). Ar gyfer 33% o'r ymwelwyr sy'n aros, gwlad arall yn Ewrop neu'r DU oedd eu prif gyrchfan gwyliau (sef 20% ac 13% yn y drefn honno), tra bo'r 8% sy'n weddill yn teithio o amgylch y DU ac Ewrop, yn ymweld â nifer o wahanol wledydd.
- 3.30 Yn ystod eu hamser yng Nghymru roedd y mwyafrif o ymwelwyr sy'n aros o'r DU (84%) yn aros mewn un lleoliad, tra bo 15% yn unig wedi aros mewn lleoedd gwahanol neu wedi teithio o amgylch y wlad. *Pobl iau, 16-34, dim plant* oedd fwyaf tebygol o fod wedi teithio o amgylch Cymru (sef 25% o'i gymharu â 15% o'r ymwelwyr ar y cyfan), a *Teithio gyda phlant, ABC1* a *Teithio gyda phlant, C2DE* oedd fwyaf tebygol o fod wedi aros mewn un

lleoliad yn ystod eu hymweliad (sef 90% a 91% yn y drefn honno, o'i gymharu ag 84% o'r ymwelwyr ar y cyfan).

- 3.31 Fel yn nhonnau blaenorol yr arolwg ymwelwyr, fe wnaeth y mwyafrif o'r ymwelwyr sy'n aros o'r DU a oedd yn byw y tu allan i Gymru deithio i Gymru mewn car, fan, fan wersylla, carafán deithio neu gerbyd gwyliau (89% - heb newid ers 2016). Defnyddiodd cyfrannau bach iawn o ymwelwyr dulliau trafnidiaeth eraill: 4% trên, 2% bws cyhoeddus neu goets gyhoeddus, 2% bws preifat/coets breifat gwibdaith/taith ac 1% dulliau eraill. Y rhai a oedd yn aros yn Ne Cymru oedd fwyaf tebygol o fod wedi defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus i gyrraedd Cymru – dywedodd 8% eu bod wedi defnyddio'r trên a dywedodd 4% eu bod wedi defnyddio bws cyhoeddus neu goets gyhoeddus – ond defnydd o gar a fan wersylla oedd yn dominyddu o hyd (84%).
- 3.32 Y segmentau *Teithio gyda phlant, ABC1* a *Teithio gyda phlant, C2DE* oedd fwyaf tebygol o deithio i Gymru mewn car neu fan wersylla (sef 94% a 97% yn y drefn honno), a *Pobl iau, 16-34, dim plant* oedd fwyaf tebygol o ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus (11% trên a 5% bws cyhoeddus/coets gyhoeddus).
- 3.33 Roedd dulliau trafnidiaeth a ddefnyddiwyd i deithio o amgylch Cymru yn ystod eu hymweliad gan ymwelwyr sy'n aros yn dilyn patrwm tebyg, gyda'r car, fan, fan wersylla, carafán deithio neu gerbyd gwyliau yn dominyddu (yn cael eu defnyddio gan 90% ar y cyfan). Eto, y rhai a oedd yn teithio gyda phlant oedd fwyaf tebygol o deithio o amgylch mewn car neu fan wersylla.
- 3.34 Defnyddiodd un ymhob deg o ymwelwyr sy'n aros o'r DU dtrafnidiaeth gyhoeddus yn ystod eu hymweliad â Chymru (6% bws a 4% trên) tra bo cyfran debyg naill ai wedi cerdded neu feicio (12%).
- 3.35 Pan ofynnwyd iddynt pa mor fodlon oeddent ar ansawdd a hygyrchedd trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru, roedd bron i bedwar ymhob deg (37%) o'r rhai a oedd wedi defnyddio'r gwasanaeth bysiau cyhoeddus neu'r trên tra'r oeddent ar wyliau yng Nghymru'n fodlon iawn. Roedd traean arall yn weddol fodlon, tra bo 6% yn anfodlon, gan roi sgôr rhwng 1 a 4 allan o 10 (ni atebodd y gweddill).

Ffigur 3.5: Dull trafnidiaeth a ddefnyddiwyd i deithio o amgylch Cymru yn ystod yr ymweliad, 2019 - %




Sail: Arolwg Ymwelwyr Cymru 2019 – yr holl ymwelwyr sy'n aros o'r DU Cam II (1,642)

Sylwer: efallai na fydd y canrannau'n gwneud cyfanswm o 100% (mae mwy nag un ymateb yn bosibl / y data wedi'i dalgrynnu)

Cymhellion dros ymweld â Chymru

- 3.36 Gofynnwyd i ymwelwyr sy'n aros o'r DU pa rai o blith rhestr o resymau posibl dros ymweld â Chymru am wyliau byr neu wyliau llawn oedd yn berthnasol iddynt hwy. Gallent ddewis cymaint neu gyn lleied o resymau ag y dymunent.
- 3.37 Y cymhellion mwyaf poblogaidd dros ddod i Gymru oedd i **fwynhau tirwedd naturiol y wlad** (a grybwyllwyd gan bron i wyth ymhob deg ymwelydd), i **ymweld â lleoedd, safleoedd hanesyddol a chrefyddol neu atyniadau penodol** (a grybwyllwyd gan bron i chwech ymhob deg) ac i **gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored neu chwaraeon** (a grybwyllwyd gan dros bedwar ymhob deg). Daeth oddeutu un ymhob pump i **ymweld â ffrindiau neu berthnasau**, i **siopa** neu **am wyliau mewn dinas** (gweler Ffigur 3.6).
- 3.38 Er bod patrwm y canlyniadau yn 2019 yn debyg i donnau blaenorol, bu cynnydd o ran crybwyll dod i Gymru i fwynhau'r dirwedd naturiol (i fyny o 67% yn 2016 i 79% yn 2019) ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored neu chwaraeon (i fyny o 32% i 44%).

Ffigur 3.6: Rhesymau a ddewiswyd o restr dros ymweld â Chymru 2019 -%



Sail: Arolwg Ymwelwyr Cymru 2019 – yr holl ymwelwyr sy'n aros o'r DU Cam II (1,642)

Sylwer: efallai na fydd y canrannau'n gwneud cyfanswm o 100% (mae mwy nag un ymateb yn bosibl / y data wedi'i dalgrynnu)

- 3.39 Ar y cyfan, y **prif** reswm unigol dros ymweld â Chymru oedd i **fwynhau'r dirwedd/cefn gwlad/traeth** – fe'i rhoddwyd gan dros bedwar ymhob deg o'r ymwelwyr sy'n aros o'r DU. Roedd hyn yn fwy tebygol o gael ei grybwyll gan ymwelwyr yn ystod misoedd brig yr haf nag ymwelwyr yn y misoedd bob pen i'r misoedd brig (sef 44% o'i gymharu â 38% yn y drefn honno).
- 3.40 I'r gwrthwyneb, cafodd ymweld â Chymru i **gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored neu chwaraeon** (yr ail brif reswm mwyaf poblogaidd) ei roi fel rheswm gan fwy o ymwelwyr yn y cyfnod bob pen i'r cyfnod brig nag ymwelwyr yn ystod y cyfnod brig (sef 22% o'i gymharu ag 16%). Roedd hwn hefyd yn llawer mwy tebygol o fod y prif reswm dros ymweld â Chymru ymhlith y segment marchnata *Pobl iau, 16-34, dim plant* nag ymhlith unrhyw grŵp arall.
- 3.41 Fe wnaeth cam ansoddol yr ymchwil adnabod amgylchedd a golygfeydd naturiol Cymru fel cymhelliad allweddol dros ddewis Cymru ar gyfer ymweliad aros hefyd. Roedd yn cael ei ystyried yn un o gryfderau arbennig Cymru ac yn rhywbeth a oedd yn gwneud y wlad yn unigryw fel cyrchfan gwyliau. Rhannodd cyfranogwyr lawer o ffotograffau o'r dirwedd a golygfeydd a gyfrannodd yn sylweddol at eu mwynhad o'r ymweliad, gan gyfeirio'n

arbennig at y forlin, traethau, mynyddoedd a chefn gwlad. Y geiriau a ddefnyddiwyd i ddisgrifio golygfeydd Cymru oedd ‘prydferth’, ‘yn mynd â’ch anadl’, ‘aruthrol’, ‘syfrdanol’, ‘rhyfeddol’ a ‘digyffwrdd’.

Ffigur 3.7: Adborth ansoddol ar amgylchedd/golygfeydd naturiol Cymru



3.42 Roedd hanes Cymru yn cael ei ystyried yn un o'r prif gryfderau ac yn gymhelliad i rai ymwelwyr sy'n aros o'r DU ymweld yn ôl yr arolwg ansoddol. Roedd rhai'n credu ei fod yn cyfrannu at natur unigryw Cymru, o ystyried nifer y safleoedd hanesyddol, yn enwedig cestyll, mewn ardal gymharol fach. Roedd ymwelwyr yn gwerthfawrogi'r ffordd yr oedd rhai amgueddfeydd yn helpu i roi dealltwriaeth iddynt am ffyrdd o fyw yn y gorffennol. Roedd safleoedd hanesyddol wedi darparu adegau cofiadwy yn eu gwyliau i rai ymwelwyr yn yr ymchwil ansoddol hefyd.


Mae ganddi [Cymru] hefyd hanes cyfoethog a diddorol, yr enghraifft orau yw eu cestyll... Mae'r cestyll sy'n dal mewn cyflwr mor dda ac sy'n adrodd miloedd o storïau [yn unigryw Gymreig]. (Ymwelydd sy'n aros o'r DU – cam ansoddol)

Er ein bod wedi mynd gan fwriadu cael gwyliau hamdden ar lan y môr y rhan a safodd allan fwyaf i mi oedd Castell Caerdydd. Fe wnaeth y cyfleuster tywysu clywedol a'r strwythur rhyfeddol gyda hanes diddorol i mi gofio'r lle hwn yn dda iawn. (Ymwelydd sy'n aros o'r DU – cam ansoddol)

Roedd Amgueddfa Ceredigion yn ddathliad o fywyd Cymreig yno – roeddwn wrth fy modd gyda'r ffotograffau o'r wisg Gymreig! (Ymwelydd sy'n aros o'r DU – cam ansoddol)

- 3.43 Tra bo mwynhau tirwedd ac amgylchedd naturiol Cymru'n bwysig ar draws yr holl segmentau marchnata, roedd y prif resymau dros ymweld â Chymru'n amrywio weithiau rhwng segmentau marchnata – *Pobl iau, 16-34, dim plant* oedd fwyaf tebygol o blith yr holl grwpiau o ymweld i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored neu chwaraeon; *Grwpiau ôl-deulu, 55+, dim plant* oedd fwyaf tebygol o ddod i ymweld â lleoedd, safleoedd hanesyddol neu grefyddol neu atyniadau (gweler Ffigur 3.8).

Ffigur 3.8: Prif reswm wedi'i ddewis o restr dros ymweld â Chymru 2019 yn ôl segment marchnata - %




Sail: Arolwg Ymwelwyr Cymru 2019 – yr holl ymwelwyr sy'n aros o'r DU Cam II (1,642)

- 3.44 Cafodd ymwelwyr sy'n aros eu holi hefyd pa ffactorau eraill oedd wedi eu denu i ddod i Gymru. Darllenwyd rhestr iddynt a gofynnwyd iddynt pa rai o'r

ffactorau hyn oedd wedi dylanwadu arnynt i ddewis Cymru ar gyfer eu gwyliau llawn neu wyliau byr.

- 3.45 Dywedodd bron i dri ymhob pedwar (74%) ei bod wedi dod er mwyn eu helpu i ymlacio a dianc rhag straeniai bywyd, tra dywedodd tua dwy ran o dair eu bod wedi bod ar wyliau yng Nghymru o'r blaen ac eu bod eisiau dychwelyd a bod Cymru'n hawdd i'w chyrraedd (crybwyllwyd hyn gan 68% a 65% o ymwelwyr sy'n aros o'r DU yn y drefn honno) (gweler Ffigur 3.9).

Ffigur 3.9: Ffactorau wedi'u dewis o restr a ddenodd ymwelwyr i ddod i Gymru yn 2019 - %




Sail: Arolwg Ymwelwyr Cymru 2019— yr holl ymwelwyr sy'n aros o'r DU Cam II (1,642)

Sylwer: efallai na fydd y canrannau'n gwneud cyfanswm o 100% (mae mwy nag un ymateb yn bosibl / y data wedi'i dalgrynnu)

- 3.46 Y prif ffactor a oedd yn denu ymwelwyr sy'n aros o Gymru oedd bod Cymru'n hawdd i'w chyrraedd, ac ar gyfer ymwelwyr sy'n aros o weddill y DU i'w helpu i ymlacio a dianc rhag straeniai bywyd oedd y prif ffactor.
- 3.47 *Pobl iau, 16-34, dim plant* oedd leiaf tebygol o'r holl segmentau marchnata i ddweud eu bod wedi cael eu denu i Gymru am eu bod wedi bod ar wyliau yno o'r blaen: y *Grŵp ôl-deulu, 35-54, dim plant* oedd fwyaf tebygol o sôn eu bod wedi dod i ymlacio a dianc rhag straeniai bywyd (gweler Ffigur 3.10).

Ffigur 3.10: Ffactorau wedi'u dewis o restr a ddenodd ymwelwyr i ddod i Gymru, yn ôl segment marchnata - %



Sail: Arolwg Ymwelwyr Cymru 2019– yr holl ymwelwyr sy'n aros o'r DU Cam II (1,642)

Sylwer: efallai na fydd y canrannau'n gwneud cyfanswm o 100% (mae mwy nag un ymateb yn bosibl / y data wedi'i dalgrynnu)

3.48 Cyfeiriodd cyfranogwyr yn y cam ansoddol hefyd at ymdeimlad o lonyddwch a brofir a'r ffaith bod eu hymweliad yn rhoi cyfle iddynt oedi a dianc rhag pwysau beunyddiol bywyd.

Mae Cymru i mi'n golygu dychwelyd at ffordd symlach, ddiglyffwrdd a thraddodiadol o fyw... Yn ôl at natur. (Ymwelydd sy'n aros o'r DU – cam ansoddol)


Mae Cymru'n hyfryd. Roedd yn teimlo'n ddiglyffwrdd a lleol. Rhywle yr hoffwn ddod â'm merch iddo eto... (Ymwelydd sy'n aros o'r DU – cam ansoddol)

Mae'n draeth tywodlyd, diglyffwrdd, prydferth â golygfeydd gwych o Borth a'r clogwyn i'r chwith ac Aberdyfi i'r dde. Mae croeso i gŵn trwy gydol y flwyddyn ac mae'n weddol dawel o'i gymharu â Borth. Rydym ni'n dwlu arno. (Ymwelydd sy'n aros o'r DU – cam ansoddol)



- 3.49 Gofynnwyd i ymwelwyr sy'n aros o'r DU beth oedd wedi eu perswadio i dreulio'u gwyliau llawn/gwyliau byr yng Nghymru ar yr achlysur hwn. Darllenwyd rhestr iddynt a gofynnwyd iddynt pa rai o'r rhesymau hyn os o gwbl oedd yn wir.
- 3.50 Roedd bod eisiau cael gwyliau gartref yn hytrach na thramor yn ffactor i bron i bedwar ymhob deg o ymwelwyr (39%), yn enwedig y rhai o Gymru (44%) ac i deuluoedd â phlant (43%). Roedd argymhelliad yn ffactor i un ymhob pedwar o ymwelwyr sy'n aros o'r DU (25%), a hynny'n codi i 37% o ymwelwyr newydd â Chymru (gweler Ffigur 3.11).
- 3.51 Bod eisiau cael gwyliau gartref wnaeth berswadio 44% o'r segment *Teithio gyda phlant, ABC1* i dreulio'u gwyliau yng Nghymru, tra bo argymhelliad gan ffrindiau/cydweithwyr/perthnasau wedi dylanwadu ar 34% o'r segment *Pobl iau, 16-34, dim plant* i ddod. Roedd dod o hyd i fargen dda/cynnig arbennig yn fwy tebygol o gael ei grybwyll gan y segment *Teithio gyda phlant, C2DE* na grwpiau eraill (sef 24% o'i gymharu â 14% ar y cyfan)

Ffigur 3.11: Beth berswadiodd ymwelwyr i dreulio'u gwyliau llawn/gwyliau byr yng Nghymru yn 2019 (wedi'u dewis o restr) - %



Sail: Arolwg Ymwelwyr Cymru 2019— yr holl ymwelwyr sy'n aros o'r DU Cam II (1,642)

Sylwer: efallai na fydd y canrannau'n gwneud cyfanswm o 100% (mae mwy nag un ymateb yn bosibl / y data wedi'i dalgrynnu)

Gweithgareddau y cymerodd ymwelwyr ran ynddynt tra'r oeddent yng Nghymru

- 3.52 Gofynnwyd i ymwelwyr a ddwedodd iddynt ddod i Gymru am resymau penodol pa weithgareddau cysylltiedig yr oeddent wedi cymryd rhan ynddynt yn ystod eu hymweliad.
- 3.53 Dywedodd bron i wyth ymhob deg o ymwelwyr sy'n aros o'r DU (79%) fod **mwynhau'r dirwedd/cefn gwlad/traeth** yn un o'r rhesymau dros ymweld â Chymru. O'r ymwelwyr hyn, roedd bron i dri ymhob pedwar (73%) wedi ymweld â thraeth yn ystod eu harhosiad (i fyny o 63% yn 2016), tra bo bron i hanner wedi ymweld â pharc gwledig/parc coedwig (48%). Roedd tua thri ymhob deg o'r rhai a ddaeth i fwynhau'r amgylchedd naturiol wedi ymweld ag atyniad bywyd gwyllt/gwarchodfa natur neu wedi treulio peth amser yn gwyllo bywyd gwyllt yn ystod eu hymweliad – roedd y ddau wedi cynyddu o'i gymharu â lefelau 2016.
- 3.54 Roedd ymwelwyr sy'n aros yn ystod y tymor brig yn fwy tebygol o ymweld â'r traeth nag ymwelwyr yn ystod y cyfnod bob pen i'r tymor brig, ond fel arall nid oedd rhyw lawer o wahaniaeth yn ôl adeg yr ymweliad.
- 3.55 Roedd gwobrau am ansawdd a glendid, megis Gwobr y Faner Las, y Wobr Arfordir Glas a'r Gwobrau Glan Môr, yn cael eu hystyried yn bwysig wrth ddewis traeth i ymweld ag ef gan 70% o'r rhai a oedd wedi ymweld â thraeth yng Nghymru yn ystod eu harhosiad.
- 3.56 Dywedodd bron i chwech ymhob deg o ymwelwyr sy'n aros o'r DU (56%) eu bod wedi dod i Gymru i **ymweld â lleoedd/safleoedd hanesyddol neu grefyddol/atyniadau penodol neu fynd i weld golygfeydd**. O'r rhain, roedd y mwyafrif (82%) wedi treulio peth amser yn mynd i weld golygfeydd yn gyffredinol, i fyny o 65% yn 2016 ac ar ei uchaf ymhlith ymwelwyr sy'n aros yn ystod y tymor brig (sef 87%). Roedd chwech ymhob deg wedi ymweld â chastell neu atyniad hanesyddol arall yn ystod eu hymweliad, tra bo oddeutu pedwar ymhob deg wedi ymweld ag atyniad natur (i fyny o 26% yn 2016) neu amgueddfa neu ganolfan treftadaeth.

- 3.57 Daeth ychydig dros bedwar ymhob deg (44%) i Gymru i **gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored neu chwaraeon**. O'r grŵp yma, cerdded oedd y gweithgaredd mwyaf poblogaidd y cymerwyd rhan ynddo – roedd 80% wedi cerdded dros 2 filltir ac roedd 22% arall wedi cerdded llai na 2 filltir. Roedd oddeutu un ymhob pump (22%) wedi cymryd rhan mewn nofio (i fyny o 13% yn 2016) neu feicio (18%) yn ystod eu harhosiad. Roedd beicio mynydd yn cael ei wneud yn fwy cyffredin gan ymwelwyr yn ystod y cyfnod bob pen i'r tymor brig na chan ymwelwyr yn ystod y cyfnod brig.
- 3.58 Dywedodd oddeutu un ymhob deg (8%) eu bod wedi dod i Gymru i **fynd i ddigwyddiad/cyngerdd/perfformiad neu ddigwyddiad chwaraeon**. Roedd un ymhob pedwar o'r grŵp yma wedi bod mewn digwyddiad chwaraeon yn ystod eu hymweliad â Chymru, tra bo oddeutu un ymhob pump wedi bod i gyngerdd byw neu ŵyl gelfyddydol/ddiwylliannol/Eisteddfod (ar ei uchaf ymhlith ymwelwyr yn ystod y tymor brig, sef 22%) (gweler Tabl 3.2).


Tabl 3.2: Y prif weithgareddau y cymerwyd rhan ynddynt yng Nghymru

%	Tueddiadau dros amser			Tymor brig o'i gymharu â phob pen i'r tymor brig 2019	
	2019	2016	2013	Tymor brig	Bob pen iddo
I fwynhau'r dirwedd/cefn gwlad/traeth (sail: pawb a ddaeth i fwynhau'r dirwedd/cefn gwlad/traeth – 1,287)					
Wedi ymweld â'r traeth	73	63	67	78	65
Wedi ymweld â pharciau gwledig/parciau coedwig	48	46	34	47	50
Wedi ymweld ag atyniad bywyd gwyllt/gwarchodfa natur	30	24	Amh.	30	30
Gwyllo bywyd gwyllt	27	19	10	27	26
Wedi ymweld â gerddi	26	23	18	25	26
I ymweld â lleoedd/safleoedd hanesyddol a chrefyddol/atyniadau (sail: pawb a ddaeth i ymweld â lleoedd/safleoedd hanesyddol a chrefyddol/atyniadau – 991)					
Gweld golygfeydd yn gyffredinol	82	65	47	87	74
Castell neu atyniad hanesyddol arall	60	64	58	61	57
Atyniad natur (e.e. gerddi)	39	26	20	41	36
Amgueddfa neu ganolfan dreftadaeth	37	41	25	37	39
Rheilffordd olygfaol/stêm/hanesyddol	27	17	18	27	26
Safle crefyddol (e.e. eglwys gadeiriol)	24	24	10	25	24
Atyniad treftadaeth ddiwydiannol	22	21	16	24	19
Atyniad anifeiliaid (e.e. sŵ)	17	13	11	19	13
Oriel neu arddangosfa gelf	14	14	9	13	15
I gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored neu chwaraeon (sail: pawb a ddaeth i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored neu chwaraeon – 708)					
Cerdded (mwy na 2 filltir)	80	75	55	82	76
Cerdded (llai na 2 filltir)	22	20	43	23	21
Nofio (dan do ac yn yr awyr agored)	22	13	Amh.	29	12
Beicio	18	15	12	18	18
Beicio mynydd	15	13	2	12	19
Chwaraeon antur	14	12	2	16	12
Chwaraeon dŵr	11	8	6	15	5
I fynd i ddigwyddiad/cyngerdd/perfformiad/digwyddiad chwaraeon (sail: pawb a ddaeth i fynd i ddigwyddiad/cyngerdd/perfformiad/digwyddiad chwaraeon – 135)					
Digwyddiad chwaraeon	25	17	8	27	22
Cyngerdd byw	21	14	19	22	17
Gŵyl gelfyddydol/ddiwylliannol/Eisteddfod	19	39	14	22	10
Perfformiad mewn theatr neu sinema	13	12	11	11	19

Sail: yr holl ymwelwyr sy'n aros o'r DU; 2019 – Cam II: 1,642; 2016 – Cam II: 1,641; 2013 – 1,618
 Nodiadau am y tabl: Prif weithgareddau = y rhai y cymerodd o leiaf 10% o bob is-grŵp ran ynddynt; Amh. = data heb ei gasglu yn 2013; mae'r ffigyrau mewn coch yn dynodi newid dros amser neu wahaniaeth amlwg rhwng ymwelwyr yn ystod y tymor brig a'r misoedd bob pen i'r tymor brig

- 3.59 Wrth edrych ar y sampl gyfan o ran ymwelwyr sy'n aros o'r DU, y gweithgareddau mwyaf poblogaidd ar y cyfan oedd ymweld â thraeth a mynd i weld golygfeydd yn gyffredinol (gweler Ffigur 3.12).
- 3.60 Ceir gwahaniaethau rhanbarthol amlwg o ran y mathau o leoedd yr ymwelwyd â hwy a gweithgareddau y cymerwyd rhan ynddynt, sy'n adlewyrchu'r cymysgedd o atyniadau sydd ar gael ledled Cymru.
- 3.61 Fe wnaeth bron i chwech ym mhob deg o'r ymwelwyr sy'n aros o'r DU ar y cyfan ymweld â thraeth yng Nghymru yn ystod eu harhosiad; ymwelwyr a oedd yn aros yng Ngorllewin a Gogledd Cymru oedd fwyaf tebygol o fod wedi gwneud hynny, ac ymwelwyr â De Cymru oedd leiaf tebygol. Roedd hanner yr holl ymwelwyr sy'n aros o'r DU wedi treulio peth amser yn gweld golygfeydd yn gyffredinol yn ystod eu hymweliad; roedd y lefel hon yn gymharol gyson ledled pob rhanbarth yng Nghymru.
- 3.62 Y gweithgareddau mwyaf poblogaidd ar ôl y rhain oedd ymweld â pharc gwledig neu barc coedwig, ymweld â chastell neu atyniad hanesyddol a cherdded mwy na 2 filltir (y gwnaeth bron i bedwar ymhob deg ymwelydd sy'n aros o'r DU gymryd rhan ynddynt yn ystod eu hymweliad). Roedd ymweld â pharc gwledig neu barc coedwig a cherdded yn fwyaf cyffredin ymhlith ymwelwyr a arhosodd yng Ngogledd Cymru.
- 3.63 Roedd oddeutu un ymhob pump ymwelydd ar y cyfan wedi ymweld ag atyniad bywyd gwyllt/gwarchodfa natur, amgueddfa/canolfan dreftadaeth, wedi treulio peth amser yn gwylio bywyd gwyllt neu wedi ymweld â gerddi; ymwelwyr a arhosodd yng Nghanolbarth Cymru oedd fwyaf tebygol o fod wedi ymweld ag atyniad bywyd gwyllt neu wedi gwylio bywyd gwyllt. Ymwelwyr â De Cymru oedd fwyaf tebygol o fod wedi ymweld ag amgueddfa neu ganolfan dreftadaeth yn ystod eu hymweliad.

Ffigur 3.12: Gweithgareddau y cymerwyd rhan ynddynt/lleoedd yr ymwelwyd â hwy yng Nghymru, yn ôl rhanbarth (yn seiliedig ar sampl gyfan yr ymwelwyr sy'n aros o'r DU) - %



Sail: Arolwg Ymwelwyr Cymru 2019 – yr holl ymwelwyr sy'n aros o'r DU Cam II (1,642)
 Sylwer: efallai na fydd y canrannau'n gwneud cyfanswm o 100% (mae mwy nag un ymateb yn bosibl / y data wedi'i dalgrynnu)


Canfyddiadau am atyniadau yr ymwelwyd â hwy

- 3.64 Gofynnwyd i ymwelwyr o'r DU a oedd wedi ymweld ag atyniad yng Nghymru yn ystod eu harhosiad pa mor fodlon oeddent ar amryw agweddau ar atyniadau yng Nghymru (gan ddefnyddio graddfa o 1 i 10). Ar y cyfan, roedd bodlonrwydd yn uchel iawn, gyda thri ymhob pedwar (76%) yn rhoi sgôr o 9 neu 10 i'w **mwynhad ar y cyfan ar yr atyniadau** yr ymwelwyd â hwy (gweler Ffigur 3.13).
- 3.65 Cafodd y **gwasanaeth** a gafwyd yn yr atyniadau sgôr arbennig o uchel gan ymwelwyr hefyd, gyda dwy ran o dair yn rhoi sgôr o 9 neu 10. Rhoddwyd sgoriau ychydig yn is i **safon y cyfleusterau**, eu **gwerth am arian** a'r **ystod o atyniadau** sydd ar gael, gyda sgoriau bodlon iawn yn amrywio o 56% i

51% ar bob un o'r dimensiynau hyn a chyfrannau uwch yn rhoi sgoriau rhwng 5 ac 8.

3.66 Ychydig iawn o ymwelwyr roddodd sgoriau is na 5 ar unrhyw ddimensiwn.

Ffigur 3.13: Bodlonrwydd ar atyniadau yr ymwelwyd â hwy yng Nghymru yn 2019 - %



Sail: Arolwg Ymwelwyr Cymru 2019 – Ymwelwyr sy'n aros o'r DU Cam II a ymwelodd ag atyniadau yn ystod eu harhosiad (881)

3.67 Roedd sgoriau bodlonrwydd cyfartalog ar gyfer yr holl ddimensiynau ychydig yn uwch nag yn 2016. Nid oedd unrhyw wahaniaethau mawr yn amlwg mewn bodlonrwydd ar atyniadau rhwng ymwelwyr yn ystod y cyfnod brig a'r misoedd bob pen i'r cyfnod brig.

Bwyta allan a llety


3.68 Fe wnaeth dros wyth ymhob deg o'r ymwelwyr sy'n aros o'r DU (83%) fwyta allan yn ystod eu hymweliad â Chymru (sy'n debyg i 2016 – 81%). Y rhai a oedd leiaf tebygol o fwyta allan oedd y segment marchnata *Teithio gyda phlant, C2DE* (sef 75%).

3.69 Roedd sgôr ymwelwyr i Gymru am ei phrofiad bwyta allan yn is nac am ei hatyniadau. Roedd y gyfran o'r rhai a fwytodd allan yn ystod eu hymweliad ac a oedd yn fodlon iawn ar wahanol ddimensiynau'n amrywio o ychydig dros hanner (ar gyfer y **gwasanaeth** a ddarparwyd) i lawr i ychydig dros un ymhob

pedwar (ar gyfer **defnyddio cynnyrch Cymreig a lleol ar fwydlenni**).
(gweler Ffigur 3.14).

- 3.70 Er bod anfodlonrwydd ar unrhyw ddimensiwn yn isel iawn, roedd ar ei uchaf ar gyfer defnyddio cynnyrch Cymreig (sef 5%). Nid oedd bron i un ymhob pedwar yn gallu gwneud sylw, serch hynny.

Ffigur 3.14: Bodlonrwydd ar fwyta allan yng Nghymru yn 2019 - %



Sail: Arolwg Ymwelwyr Cymru 2019 – Ymwelwyr sy'n aros o'r DU Cam II a fwydodd allan yn ystod eu harhosiad (1,369)

- 3.71 Mae bodlonrwydd ar y rhan fwyaf o agweddau ar fwyta allan yng Nghymru wedi cynyddu ymhlith ymwelwyr sy'n aros o'r DU ers 2016. Mae'r gyfran o'r rhai a fwydodd allan yn ystod eu harhosiad a oedd yn fodlon iawn ar y gwasanaeth ac ansawdd bwyd yng Nghymru wedi codi o 49% i 53% yn 2019 ac o 44% i 48% yn 2019 yn y drefn honno.

Tabl 3.3: Bodlonrwydd ar fwyta allan, 2019 o'i gymharu â 2016

% 'bodlon iawn'	Tueddiadau dros amser	
	2019	2016
Gwasanaeth	53	49
Ansawdd bwyd	48	44
Gwerth am arian	39	38
Ystod o leoedd i fwyta	37	37
Defnyddio cynnyrch lleol neu Gymreig	27	24

Sail: Arolwg Ymwelwyr Cymru – Ymwelwyr sy'n aros o'r DU Cam II (2019 – 1,369; 2016 – 1,641) Nodiadau am y tabl: Bodlon iawn: yn sgorio 9 neu 10/10; 1 = anfodlon iawn; 10 = bodlon iawn


- 3.72 Fel mewn blynyddoedd blaenorol, gwestai a llety hunanarlwyo oedd y mathau mwyaf poblogaidd o lety a ddefnyddiwyd gan ymwelwyr sy'n aros o'r DU tra'r oeddent ar wyliau yng Nghymru. Yn 2019 am y tro cyntaf, defnyddiodd mwy o ymwelwyr â Chymru dŷ, fila, bwthyn, rhandy neu fflat hunanarlwyo nag a ddefnyddiodd westy (22% o'i gymharu ag 17%). Mae'r defnydd o westai wedi bod yn gostwng yn gyson (o 23% yn 2013 i 17% yn 2019) tra bo'r defnydd o hunanarlwyo wedi bod yn cynyddu dros yr un cyfnod (o 15% yn 2013 i 22% yn 2019). Mae'n debygol bod hyn yn gysylltiedig â'r twf mewn marchnadoedd llety ar-lein fel Airbnb.
- 3.73 Opsiynau llety eraill a ddefnyddiwyd gan oddeutu un ymhob deg o'r ymwelwyr sy'n aros o'r DU yn 2019 oedd carafán deithio/cerbyd gwyliau/fan wersylla (a ddefnyddiwyd gan 14%), cartref ffrind neu berthynas (9%) neu lety gwely a brecwast/tŷ llety (8%). Roedd carafanau sefydlog (rhai ar rent neu a berchnogir) yn rhoi cyfrif am 9% arall o'r arosiadau.
- 3.74 Roedd gwahaniaethau amlwg yn newisiadau llety gwahanol segmentau marchnata yng Nghymru:
- *Teithio gyda phlant, ABC1* oedd fwyaf tebygol o ddewis hunanarlwyo
 - *Teithio gyda phlant, C2DE* oedd fwyaf tebygol o ddefnyddio naill ai carafán deithio/ fan wersylla/ cerbyd gwyliau neu garafán sefydlog (ar rent neu a berchnogir)

- *Grŵp ôl-deulu, 35-54, dim plant a Grŵp ôl-deulu, 55+, dim plant* oedd fwyaf tebygol o aros mewn gwesty
- *Pobl iau, 16-34, dim plant*, oedd fwyaf tebygol o wersylla, aros yng nghartref ffrind neu berthynas neu aros yng nghartref rhywun arall ar sail fasnachol.

- 3.75 Y ffyrdd mwyaf cyffredin o archebu eu llety neu becyn i ymwelwyr o'r DU a oedd yn aros mewn llety masnachol oedd yn uniongyrchol gyda'r darparwr (a wnaed gan 40%) neu drwy wefan llety ar-lein trydydd parti megis Booking.com, Expedia neu LateRooms.com (a ddefnyddiwyd gan 31%). Mae archebu'n uniongyrchol gyda'r darparwr llety wedi gostwng ychydig o'i gymharu â 2016 (i lawr o 42%) tra bo archebu trwy drydydd parti wedi codi ers 2016 (i fyny o 29%). Nid yw'r naill newid na'r llall mor fawr â'r newidiadau a welwyd rhwng 2013 a 2016 mewn dulliau archebu, er bod rhaid nodi bod y sail ar gyfer 2013 ychydig yn wahanol¹⁵ (gweler Ffigur 3.15).
- 3.76 Fe archebodd 9% arall trwy Airbnb, gyda hynny'n codi i 15% o'r segment *Pobl iau, 16-34, dim plant* (ni oedd Airbnb wedi'i gynnwys yn y dulliau archebu a ddefnyddiwyd mewn arolygon blaenorol). Cafodd yr holl ddulliau eraill eu defnyddio gan gyfran fach iawn o ymwelwyr.

¹⁵ *Sail 2013 yw'r holl ymwelwyr sy'n aros o'r DU ac eithrio'r rhai a roddodd 'Amherthnasol' fel ateb; Sail 2016 a 2019 yw'r holl ymwelwyr sy'n aros o'r DU a arhosodd mewn llety masnachol*

Ffigur 3.15: Prif ddull o archebu llety yng Nghymru, dros amser - %




Sail: Arolwg Ymwelwyr Cymru – yr holl ymwelwyr sy'n aros o'r DU Cam II a arhosodd mewn llety masnachol

Sylwer: Sail 2013 yw'r holl ymwelwyr ac eithrio 'Amherthnasol' (2019 - 1,145; 2016 – 1,152; 2013 - 1,141)

- 3.77 Roedd naw ymhob deg o'r rhai a archebodd ymlaen llaw (89%) wedi archebu llety yn unig a dim trefniadau teithio. Roedd 5% wedi archebu eu llety a'u trefniadau teithio gyda'i gilydd gyda'r un darparwr fel rhan o becyn, tra bo 6% wedi archebu llety a threfniadau teithio ar wahân gyda darparwyr gwahanol.
- 3.78 Pobl hŷn 65+ oed a'r rhain yn y segment *Grŵp ôl-deulu, 55+, dim plant* oedd fwyaf tebygol o fod wedi archebu eu llety a'u trefniadau teithio i Gymru fel pecyn (sef 14% ac 11% yn y drefn honno, o'i gymharu â 5% ar y cyfan).
- 3.79 Roedd sgoriau a roddwyd gan deithwyr eraill ar wefannau megis TripAdvisor neu Booking.com yn bwysig wrth archebu eu llety yng Nghymru i chwe ymhob deg o ymwelwyr sy'n aros o'r DU a oedd wedi aros mewn llety masnachol. Roedd sgoriau defnyddwyr ar-lein ychydig yn bwysicach na sgôr swyddogol neu gyfanswm sêr y llety (yn bwysig i 58% o'r ymwelwyr hyn) (gweler Ffigur 3.16).

- 3.80 I'r gwrthwyneb, nid oedd y naill na'r llall o'r rhain yn bwysig wrth archebu eu hymweliad i un ymhob pedwar o'r ymwelwyr o'r DU a oedd wedi aros mewn llety masnachol yng Nghymru.
- 3.81 Roedd sgoriau a roddwyd gan deithwyr eraill yn arbennig o bwysig i'r *Grŵp ôl-deulu, 35-54, dim plant* ond roeddent yn lleiaf tebygol o fod yn bwysig i'r segment *Teithio gyda phlant, C2DE*. O'i gyferbynnu, roedd sgôr swyddogol/cyfanswm sêr y llety yr un mor bwysig i'r rhan fwyaf o segmentau, ac eithrio'r grŵp *Pobl iau, 16-34, dim plant*.

Ffigur 3.16: Pwysigrwydd sgor swyddogol/cyfanswm sêr a sgoriau a roddwyd gan deithwyr eraill wrth archebu llety, yn ôl segment marchnata




Sail: Arolwg Ymwelwyr Cymru 2019 – Ymwelwyr sy'n aros o'r DU Cam II a arhosodd mewn llety masnachol yng Nghymru (1,145)

- 3.82 Pan ofynnwyd iddynt am eu bodlonrwydd ar y llety a archebwyd yng Nghymru, roedd dwy ran o dair o'r ymwelwyr o'r DU a oedd wedi aros mewn llety am dâl (65%) yn fodlon iawn ar y cyfan. Roedd tri arall ymhob deg yn weddol fodlon a dim ond 1% oedd yn anfodlon (gweler Ffigur 3.17).
- 3.83 Roedd y rhai a arhosodd mewn llety hunanarlwyo neu dŷ llety/llety gwely a brecwast yn llawer mwy tebygol o fod yn fodlon iawn ar eu llety na'r rhai a

arhosodd mewn gwesty yng Nghymru (sef 72% a 70% yn y drefn honno, o'i gymharu â 55% ar gyfer gwestai).

- 3.84 Roedd bodlonrwydd ar yr ansawdd, gwerth am arian a'r gwasanaeth a gafwyd yn y llety masnachol a ddefnyddiwyd yn uchel hefyd, gyda'r gyfran a oedd yn fodlon iawn ar bob dimensiwn yn amrywio o 58% i 52%.

Ffigur 3.17: Bodlonrwydd ar lety yng Nghymru 2019 - %



Sail: Arolwg Ymwelwyr Cymru 2019 – Ymwelwyr sy'n aros o'r DU Cam II a arhosodd mewn llety masnachol yng Nghymru (1,145)

- 3.85 Mae sgoriau bodlonrwydd cyfartalog ar gyfer pob dimensiwn wedi codi ers 2016 (gweler Tabl 3.4).

Tabl 3.4: Bodlonrwydd cyfartalog ar y llety, 2019 o'i gymharu â 2016

Sgoriau cymedrig	Tueddiadau dros amser	
	2019	2016
Bodlonrwydd ar y cyfan ar y llety	8.9	8.6
Ansawdd	8.7	8.4
Gwerth am arian	8.7	8.5
Gwasanaeth	8.9	8.7


Sail: Arolwg Ymwelwyr Cymru 2019 – Ymwelwyr sy'n aros o'r DU Cam II a arhosodd mewn llety masnachol yng Nghymru (2019 - 1,145; 2016 – 1,152)
Nodiadau am y tabl: Graddfa sgôr cymedrig: 1 = anfodlon iawn; 10 = bodlon iawn; nid yw'r sgoriau cymedrig yn cynnwys 'Ddim yn gwybod'

Cynaliadwyedd a naws am le

- 3.86 Mae dros naw ymhob deg ymwelydd sy'n aros o'r DU (94%) o'r farn bod Cymru'n gyrchfan twristiaeth cynaliadwy ar gyfer gwyliau llawn a gwyliau byr, gyda'r rhan fwyaf o ymwelwyr ac y cyfan (72%) yn cytuno'n gryf ei bod. Mae hyn yn gynydd amlwg o'r lefelau a welwyd mewn blynyddoedd blaenorol (gyda 50% yn cytuno'n gryf yn 2016 a 55% yn 2013). Y segment *Grŵp ôl-deulu, 55+, dim plant* oedd fwyaf tebygol o gytuno'n gryf.
- 3.87 Pan gawsant eu cynorthwyo â rhestr a phan ofynnwyd iddynt a oedd eu hymweliad â Chymru'n cynnwys unrhyw agweddau a oedd yn unigryw Gymreig neu a oedd â chymeriad lleol penodol, roedd y mwyafrif o'r ymwelwyr sy'n aros o'r DU (78%) yn gallu tynnu sylw at rywbeth a oedd yn unigryw Gymreig ynglŷn â'u hymweliad. Dim ond 22% oedd yn methu â gwneud hynny. Fel yn 2016, **safleoedd treftadaeth** ac **atyniadau ymwelwyr** gafodd eu crybwyll fynyachaf (yn 2019 gan 43% o ymwelwyr yr un), gyda **bwyd a diod** (a ddewiswyd gan 36%) a **gweithgareddau awyr agored** (24%) yn dilyn wedyn.
- 3.88 Roedd y mwyafrif o ymwelwyr sy'n aros o'r DU yn chwilio am brofiad yng Nghymru na allent ei gael yn unrhyw le arall – roedd 71% o'r farn ei bod yn bwysig bod eu hymweliad â Chymru'n unigryw Gymreig, tra nad oedd 27% o'r un farn.
- 3.89 I'r segmentau *Pobl iau, 16-34, dim plant* a'r *Grŵp ôl-deulu, 55+, dim plant* yr oedd naws am le fwyaf pwysig. O'i gyferbynnu, i'r grŵp *Teithio gyda phlant, C2DE* yr oedd leiaf pwysig (gweler Ffigur 3.18).
- 3.90 Ar yr un pryd, roedd gwahaniaeth barn ymhlith ymwelwyr sy'n aros o'r DU ynglŷn â phwysigrwydd gallu gweld neu glywed y Gymraeg yn ystod eu hymweliad â Chymru – roedd 51% o'r farn bod hynny'n bwysig, tra nad oedd 48% yn meddwl bod hynny'n bwysig. Roedd ymwelwyr o Gymru ychydig yn fwy tebygol o deimlo'i fod yn bwysig nag ymwelwyr o Loegr neu wledydd eraill yn y DU.

- 3.91 Y segment *Pobl iau, 16-34, dim plant* oedd fwyaf tebygol o fod eisiau clywed y Gymraeg yn ystod eu hymweliad.

Ffigur 3.18: Pwysigrwydd elfennau unigryw o'r ymweliad yn 2019, yn ôl segment marchnata




Sail: Arolwg Ymwelwyr Cymru 2019 – yr holl ymwelwyr sy'n aros o'r DU Cam II (1,642)

Cofio ymgyrchoedd marchnata a chynllunio gwyliau

- 3.92 Roedd chwech ymhob deg o'r ymwelwyr sy'n aros o'r DU yn 2019 (60%) wedi gweld rhywfaint o hysbysebu, marchnata a chyfathrebu am Gymru cyn eu hymweliad, i lawr o 66% yn 2016 (gweler Ffigur 3.19).
- 3.93 Y sianel a oedd yn cael ei chofio'n fwyaf cyffredin oedd hysbysebu ar y teledu (a grybwyllwyd gan oddeutu un ymhob pedwar o'r ymwelwyr sy'n aros o'r DU ar y cyfan). Mae hyn wedi gostwng o lefel o 41% yn 2016. Roedd cyfathrebiadau ar y cyfryngau cymdeithasol (e.e. Facebook a Twitter) yn cael eu cofio gan 14%, tra bo 12% yn cofio gweld hysbysebion ar-lein. Mae'r ddwy ganran wedi cynyddu ers 2016 (sef 9% a 7% yn y drefn honno). Roedd 12% wedi clywed Cymru'n cael ei chrybwyll neu ei hargymell gan bobl eraill. Mae'r ganran a grybwyllodd wefan Croeso Cymru wedi gostwng ers 2016 (7% erbyn hyn, i lawr o 14% yn 2016).

- 3.94 Roedd ymwelwyr sy'n aros o Gymru'n fwy tebygol nag ymwelwyr sy'n aros o wledydd eraill y DU o fod wedi gweld bron pob un o'r mathau hyn o farchnata, yn enwedig y cyfryngau cymdeithasol, hysbysebu ar y teledu a hysbysebu ar-lein.

Ffigur 3.19: Cofio ymgyrchoedd hysbysebu, marchnata a chyhoeddusrwydd ar gyfer Cymru cyn yr ymweliad a ddewiswyd o restr, yn ôl y wlad yr oedd yr ymwelydd yn tarddu ohoni - %



Sail: Arolwg Ymwelwyr Cymru 2019 – yr holl ymwelwyr sy'n aros o'r DU Cam I (3,103)


Sylwer: efallai na fydd y canrannau'n gwneud cyfanswm o 100% (mae mwy nag un ymateb yn bosibl / y data wedi'i dalgrynnu)

- 3.95 Roedd 6% o'r ymwelwyr sy'n aros o'r DU wedi clywed am yr ymgyrch 'Ffordd Cymru'. Roedd ymwybyddiaeth ar ei huchaf (sef 10%) ymhlith y rhai 65 oed a throsodd. Ymhlith y rhai a oedd yn ymwybodol, dywedodd y mwyafrif nad oedd wedi gwneud unrhyw wahaniaeth i'w penderfyniad i ymweld â Chymru, ond fe wnaeth ddylanwadu ar benderfyniad 15% o'r rhai a oedd wedi'i weld. Mae hyn yn cyfateb i bron i 1% o'r ymwelwyr sy'n aros o'r DU ar y cyfan.
- 3.96 Roedd 11% o'r ymwelwyr sy'n aros o'r DU wedi gweld hysbysebion, deunydd marchnata neu gyhoeddusrwydd ar gyfer 'Blwyddyn Darganfod 2019'. gyda'r

ganran yn codi i 14% o'r ymwelwyr o Gymru. Er mai ychydig o wahaniaeth os o gwbl yr oedd wedi'i wneud i'w penderfyniad i ymweld ar gyfer dwy ran o dair o'r rhai a oedd yn ymwybodol, roedd wedi dylanwadu ar un ymhob tri o'r rhai a oedd wedi'i weld i ryw raddau (neu 3% o'r ymwelwyr sy'n aros o'r DU ar y cyfan).

- 3.97 Defnyddiodd saith ymhob deg ymwelydd sy'n aros o'r DU (70%) rai ffynonellau gwybodaeth i helpu i gynllunio'u hymweliad â Chymru: defnyddiodd ychydig dros hanner yr ymwelwyr (52%) ffynonellau ar-lein megis gwefannau ac apiau yn unig wrth gasglu gwybodaeth (tua'r un lefel ag yn 2016 – 50%), tra bo 14% arall wedi defnyddio ffynonellau ar-lein a ffynonellau all-lein megis llyfrynau a thaflenni (i lawr o 21% yn 2016). Dim ond 3% o'r ymwelwyr ddefnyddiodd ffynonellau gwybodaeth na ddaethpwyd o hyd iddynt ar y rhyngrwyd yn 2019 cyn ymweld â Chymru (i lawr o 6% yn 2016) (gweler Ffigur 3.20).
- 3.98 Er bod y defnydd o wybodaeth yn is yn ystod eu harhosiad, fe wnaeth tua chwech ymhob deg o ymwelwyr sy'n aros o'r DU (61%) chwilio am wybodaeth tra'r oeddent yng Nghymru - ni wnaeth 34% hynny. Ymhlith y rhai a wnaeth, defnyddiodd bron i dri ymhob deg (28%) ffynonellau gwybodaeth ar-lein yn unig (i fyny o 21% yn 2016), tra bod 19% wedi defnyddio gwybodaeth ar-lein a gwybodaeth all-lein (i fyny o 14% yn 2016). Defnyddiodd 14% ffynonellau all-lein yn unig (i lawr o 24% yn 2016).

Ffigur 3.20: Cynllunio gwyliau: ffynonellau gwybodaeth a ddefnyddiwyd cyn ac yn ystod ymweliad â Chymru yn 2019 - %




Sail: Arolwg Ymwelwyr Cymru 2019 – yr holl ymwelwyr sy'n aros o'r DU Cam II (1,642)

- 3.99 Defnyddiwyd gwefannau i gynllunio eu hymweliad â Chymru gan y mwyafrif llethol o ddefnyddwyr gwybodaeth ar-lein yn 2019 (94%). Dywedodd 9% arall eu bod wedi defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ac apiau, tra bo 7% wedi defnyddio'r e-bost. Gan y segment *Pobl iau, 16-34, dim plant* yr oedd y cyfryngau cymdeithasol ac apiau fwyaf tebygol o gael eu crybwyll.
- 3.100 Chwilotwyr megis Google gafodd eu crybwyll yn fwyaf cyffredin gan yr rhai a oedd wedi defnyddio gwefannau i gynllunio eu hymweliad (crybwyllwyd y rhain gan oddeutu hanner y grŵp yma – 51%). Fe wnaeth oddeutu un ymhob chwech grybwyll gwefannau archebu llety (megis LateRooms.com, Expedia, Booking.com ac Airbnb) (17%), gwefannau adolygu megis TripAdvisor a Google Places (16%) a gwefan Croeso Cymru (15%).
- 3.101 Google a chwilotwyr oedd yn dominyddu i gasglu gwybodaeth yn ystod eu hymweliad â Chymru (cawsant eu crybwyll gan 63% o'r rhai a oedd wedi defnyddio ffynonellau gwybodaeth ar-lein). Yn ogystal â gwefannau adolygu a gwefan Croeso Cymru (a grybwyllwyd gan 12% a 10% yn y drefn honno), roedd ymwelwyr hefyd yn debygol o ddefnyddio gwefannau llywio megis Google maps ac AA Route Planner (a ddefnyddiwyd gan 10%).

Bodlonrwydd ar y profiad ymweld ar y cyfan

- 3.102 Roedd oddeutu wyth ymhob deg (81%) o'r ymwelwyr sy'n aros o'r DU yn 2019 yn fodlon iawn ar **Gymru ar y cyfan fel lle i ymweld ag ef**. Mae'r sgôr bodlonrwydd cyfartalog o 9.3 bron heb newid o flynyddoedd blaenorol (9.2 yn 2016 a 9.3 yn 2013). Nid oedd unrhyw wahaniaethau mawr yn amlwg yn lefelau bodlonrwydd ymwelwyr yn ystod y cyfnod brig o'i gymharu ag ymwelwyr yn y misoedd bob pen i'r cyfnod brig, yn ôl demograffeg nac yn ôl segment marchnata.
- 3.103 Fel mewn blynyddoedd blaenorol roedd bodlonrwydd ar ei uchaf ar **ansawdd yr amgylchedd naturiol yng Nghymru** (gyda 78% yn fodlon iawn). Dimensiynau eraill ar brofiad ymwelwyr a gafodd sgôr uchel oedd yr **ymdeimlad o ddiogelwch, eich helpu i ymlacio rhag straeniau bywyd, glendid traethau, yr ymdeimlad o groeso a lleoedd i ymweld â hwy**. Cafodd pob un ohonynt sgôr o 9 neu 10 gan o leiaf ddau ymhob tri o'r ymwelwyr sy'n aros o'r DU a fynegodd farn yn 2019.
- 3.104 Er bod bodlonrwydd yn uchel ar y cyfan, roedd bodlonrwydd ar ei isaf ar **hygyrchedd Cymru i bobl ag anabledd, glendid ac argaeledd toiledau cyhoeddus, siopa, cysylltedd digidol, ac ansawdd ac argaeledd trafndiaeth gyhoeddus**. Roedd rhwng 28% a 34% o ymwelwyr a fynegodd farn yn fodlon iawn ar Gymru ar unrhyw un o'r dimensiynau hyn.
- 3.105 Roedd yr anfodlonrwydd uchaf yn amlwg ar gyfer **cysylltedd digidol ac ansawdd ac argaeledd trafndiaeth gyhoeddus**, gyda 12% a 10% o ymwelwyr sy'n aros o'r DU a fynegodd farn yn anfodlon â phob un (hynny yw, gan sgorio pob un rhwng 1 a 4 allan o 10).
- 3.106 Mae Ffigur 3.21 yn dangos bodlonrwydd ymwelwyr sy'n aros o'r DU ar Gymru ar bob dimensiwn ac mae wedi'i ail-seilio i hepgor y rhai nad oeddent yn gallu rhoi ateb (hynny yw, y rhai a ddwedodd 'Ddim yn gwybod' neu 'Amherthnasol').

Ffigur 3.21: Bodlonrwydd ar yr ymweliad â Chymru yn 2019



*Sail: Arolwg Ymwelwyr Cymru 2019 – yr holl ymwelwyr sy'n aros o'r DU Cam II (1,642); wedi'i ail-seilio i hepgor y rhai a ddwedodd 'Ddim yn gwybod' neu 'Amherthnasol' ar gyfer pob dimensiwn
Sylwer: efallai na fydd y canrannau'n gwneud cyfanswm o 100% (mae mwy nag un ymateb yn bosibl / y data wedi'i dalgrynnu)*

- 3.107 Gofynnwyd i'r lleiafrif bach o ymwelwyr sy'n aros a roddodd sgôr o 7 allan o 10 neu is i Gymru fel lle i ymweld ag ef (4%) beth fyddai wedi gwella eu profiad neu wedi'u hannog i roi sgôr uwch, ar wahân i'r tywydd.
- 3.108 Er gwaethaf hyn, glaw / tywydd gwael oedd y ffactor a grybwyllwyd fwyaf o hyd, a ddyfynnwyd yn ddigymell gan 11% o'r ymwelwyr hyn. Roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys mwy o hysbysebion am ddigwyddiadau (a grybwyllwyd gan 8%), gwelliannau i'r seilwaith trafndiaeth (7%) a mwy o weithgareddau, yn enwedig mewn tywydd gwael (6%). Soniodd 5% yn eu tro ei bod yn anodd dod o hyd i fwytai neis ac y gellid gwella amgylcheddau canol trefi (gyda chyfleusterau siopa gwell neu fwy o adfywio), ac fe enwodd 4% faterion gyda mynediad ar gyfer pobl ag anableddau.

3.109 Ceir rhai sylwadau isod gan ymwelwyr sy'n aros o'r DU a oedd yn llai bodlon:

Mae bron yn wlad gudd. Rwyf wedi treulio llawer o amser yn Lloegr a dydyn ni ddim yn gwthio Cymru ddigon fel lle i fynd. Rhaid i chi wneud pobl yn ymwybodol ohoni.

Glendid, mwy o doiledau cyhoeddus, gwell gwasanaethau bysiau, mwy o leoedd i ymweld â hwy heb wario ffortiwn a pharciau cyhoeddus gweddol i'r plant, does dim byd i'r plant.

Parcio rhatach. Fe allai fod cyfleusterau gwell o ran tai bach. Ar gopa'r Wyddfa, bu'n rhaid i mi fynd â'm hwyres i dai bach y dynion am bod 20 o fenywod yn aros.

Yn seiliedig ar brofiad wrth ymweld â Gogledd Cymru a minnau o ganolbarth Cymru, gallai ansawdd caffis a safleoedd annibynnol yno fod yn llawer gwell, mae'r bwyd yn gyffredin. Yn y De Orllewin ar y llaw arall, a minnau wedi byw yno, mae ystod well o gaffis, sy'n cynnig bwydydd o ansawdd gwell megis bara crefftus er enghraifft. Gellid gwella hyn trwy annog caffis i werthu bwydydd mwy arloesol a diddorol.

Rwy'n meddwl bod cyfle wedi'i golli, er enghraifft Taith y Ddraig neu Daith y Derwyddon sy'n cysylltu hanes Cymru ar gyfer pobl â diddordeb penodol mewn unrhyw faes. Hefyd, fe'i cawsom yn anodd i anghenion llysieuol a feganaidd gyda'i gilydd.

Materion parcio ac mae'n anodd dod o hyd i fwytai neis.

Yr argraff yn yr hen ran o'r dref yw ei bod yn ddiflas a thlodaidd.

Roedd gennym gadair olwyn. Roedd yn anodd cael mynediad at unrhyw safleoedd. Nid oedd unrhyw un yn darparu rampiau i fynd i mewn ac allan, cyfyngwyd yn helaeth arnom o ran ble y gallem fwyta neu yfed neu aros. Llawer o fynediad ar gyfer cŵn ond dim ar gyfer pobl!

Gellid gwella cysylltiadau trafnidiaeth rhwng lleoedd yng Nghymru, er enghraifft i deithio o Ganolbarth Cymru i Gaerdydd rhaid i chi deithio i Loegr yna dod yn ôl i mewn eto.

Hygyrchedd, seilwaith, signal symudol.

3.110 Gan adlewyrchu'r lefelau bodlonrwydd uchel ar y cyfan ymhlith ymwelwyr sy'n aros o'r DU, aeth yr ymweliad â Chymru y tu hwnt i'r disgwyliadau ar gyfer bron i chwech ymhob deg ymwelydd (55%). Mae hyn yn gyson â blynyddoedd blaenorol (53% yn 2016; 57% yn 2013). Ar gyfer ychydig dros bedwar ymhob deg ymwelydd yn 2019 (43%), fe gwrddodd yr ymweliad â'u disgwyliadau. Ni ddwedodd yr un o'r rhai y cyfwelwyd â hwy fod eu hymweliad â Chymru heb fodystal â'r disgwyl.

Ymwelwyr newydd a'r segment *Pobl iau 16-34, dim plant* oedd fwyaf tebygol o ddweud bod eu hymweliad yn well na'r disgwyl (sef 73% a 72% yn y drefn honno, o'i gymharu â 55% ar y cyfan).

Dylanwadau ar fodlonrwydd

- 3.111 Fe gynhaliwyd dadansoddiad atodol o amryw elfennau o'r data¹⁶ ar gyfer ymwelwyr sy'n aros o'r DU, a oedd wedi'i fwriadu i archwilio ac adnabod tueddiadau a chysylltiadau rhwng newidynnau, lle mae'r perthnasoedd yn ddylanwadau ar fodlonrwydd, ail-ymweld ac argymell.
- 3.112 Fe wnaeth y dadansoddiad hwn adnabod ysgogwyr allweddol bodlonrwydd ar y cyfan ar Gymru ond nid oedd yn gallu adnabod ysgogwyr ar gyfer ail-ymweld ac argymell. Mae angen gwasgariad sgoriau i archwilio perthnasoedd yn llwyddiannus, ond mae cyfran uchel iawn (81%) o ymwelwyr sy'n aros o'r DU yn y ddau flwch bodlonrwydd uchaf ar gyfer bodlonrwydd ar y cyfan. Mae'r un peth yn wir am ail-ymweld ac argymell, gydag 83% yn dweud y byddant yn bendant yn ymweld eto yn y blynyddoedd nesaf a 95% yn dweud y byddant yn bendant yn argymell Cymru fel lle i ymweld ag ef. O ganlyniad, ceir niferoedd cymharol fach o ymatebwyr nad ydynt yn y blwch uchaf/y ddau flwch uchaf, sy'n ei gwneud yn annhebygol y gall y dadansoddiad egluro'r ysgogwyr yn llwyddiannus.
- 3.113 A throi at ddylanwadau ar fodlonrwydd ymwelwyr, nododd y dadansoddiad bod ysgogwyr allweddol bodlonrwydd ar Gymru fel lle i ymweld ag ef yn amrywiaeth o ffactorau sy'n ymwneud ag agweddau ar yr ymweliad: yn arbennig **ansawdd yr amgylchedd naturiol, eich helpu i ymlacio a dianc rhag straeniau bywyd, yr ymdeimlad o ddiogelwch a'r ymdeimlad o groeso** (gweler Ffigur 3.22 isod). Roedd yr holl ddimensiynau eraill a oedd yn ymwneud ag agweddau yn yr arolwg yn llai pwysig o lawer o ran dylanwadu ar fodlonrwydd ymwelwyr.

¹⁶ Gweler Atodiad D am eglurhad

Ffigur 3.22: Ysgogwyr allweddol bodlonrwydd ar y cyfan ar Gymru yn 2019



*Sail: Arolwg Ymwelwyr Cymru 2019 – yr holl ymwelwyr sy'n aros o'r DU Cam II (1,642)
Sylwer: i gael eglurhad o'r gwerthoedd, gweler y troednodyn¹⁷*

Tebygolrwydd o ddod yn ôl ac o argymell Cymru


3.114 Dywedodd 97% o'r ymwelwyr sy'n aros o'r DU eu bod yn debygol o ymweld â Chymru eto yn y blynyddoedd nesaf, gydag 83% ar y cyfan yn dweud y byddent yn bendant yn dod yn ôl. Dim ond 2% ddywedodd mwy na thebyg neu'n bendant na fyddent yn ail-ymweld â Chymru. Mae'r gyfran o'r ymwelwyr a ddwedodd y byddant yn bendant yn ymweld eto wedi codi ers 2016 (79%).

3.115 Er bod y rhan fwyaf o ymwelwyr newydd yn debygol o ymweld â Chymru eto, roedd y gyfran o'r grŵp yma sy'n debygol o ddod yn ôl yn is nag ymhlith ymwelwyr dychwel (sef 92% o'i gymharu â 98% yn y drefn honno).

¹⁷ Mae'r rhestr yn cynnwys y newidynnau gwreiddiol sy'n cyfrannu'n sylweddol at y ffactor hwn. Y cydberthyniadau rhwng y ffactor a'r newidynnau sy'n cyfrannu at y ffactor yw'r niferoedd. Mae hyn yn cynrychioli i ba raddau y mae pob un ohonynt yn 'creu cyfanswm' y ffactor fel newidyn cyfunol. Yn yr achos hwn ansawdd yr amgylchedd naturiol sy'n cyfrannu fwyaf, a faint o groeso sydd i anifeiliaid anwes yng Nghymru yn nhyb ymwelwyr sy'n cyfrannu leiaf, ond mae pob un o'r 9 newidyn yn gyfrannydd pwysig. Y cyntaf o 8 ffactor a nodir o blith yr holl newidynnau sgalar sy'n cyfrannu'n sylweddol at fodlonrwydd ar y cyfan ydyw. Pan fo'r ffactorau hyn yn cael eu rhoi i mewn i atchweliad lluosog i ragfynegi bodlonrwydd ar y cyfan, mae'r ffactor hwn yn rhagweld llawer yn fwy nag unrhyw un o'r ffactorau eraill. Mae hyn yn dweud wrthym mai'r 9 newidyn yma, ar y cyd fel ffactor (newidyn newydd), yw'r rhagfynegyddion gorau ar gyfer bodlonrwydd ar y cyfan.

3.116 Y *Grŵp ôl-deulu, 35-54, dim plant* oedd fwyaf tebygol o ddweud y byddent yn bendant yn ymweld â Chymru eto (sef 88%), a'r segment *Grŵp ôl-deulu, 55+, dim plant* oedd leiaf tebygol (sef 79%) (gweler Ffigur 3.23).

Ffigur 3.23: Tebygolrwydd o ddod yn ôl i Gymru yn 2019 yn ôl segment marchnata - %



Sail: Arolwg Ymwelwyr Cymru 2019 – yr holl ymwelwyr sy'n aros o'r DU Cam II (1,642)

3.117 Gofynnwyd hefyd i ymwelwyr sy'n aros (am y tro cyntaf) pa mor debygol oeddent o ddod i Gymru **am ymweliad undydd** yn y blynyddoedd nesaf. Roedd y rhaniad rhwng ymwelwyr bron yn gyfartal, gyda 49% yn dweud y byddent yn dod am ymweliad undydd yn y dyfodol a 50% yn dweud na fyddent.


3.118 Mae agosrwydd daearyddol yn debygol o gael dylanwad. Er bod 96% o'r ymwelwyr sy'n aros o Gymru wedi dweud y byddent yn bendant neu fwy na thebyg yn dod i Gymru am ymweliad undydd yn y dyfodol, dim ond 41% o'r ymwelwyr sy'n aros o wledydd eraill yn y DU ddywedodd hyn.

3.119 *Pobl iau, 16-34, dim plant* oedd fwyaf tebygol o'r holl segmentau marchnata o ddweud y byddent yn dychwelyd am ymweliad undydd (sef 58% o'i gymharu

â 49% ar y cyfan), a'r Grŵp ôl-deulu, 55+, dim plant, oedd leiaf tebygol (sef 46%).

- 3.120 Gan adlewyrchu'r lefelau uchel o fodlonrwydd ymwelwyr a'r tebygolrwydd cryf o ddychwelyd i Gymru yn y dyfodol, dywedodd bron pob un o'r ymwelwyr sy'n aros o'r DU (99%) y byddent yn argymhell Cymru fel lle i ymweld ag ef wrth ffrind neu berthynas; byddai'r rhain i gyd fwy neu lai yn bendant yn argymhell Cymru (95%). Mae hyn yn uwch na'r lefel argymhell yn bendant a welwyd yn 2016 ac yn agos at lefel 2013 (sef 92% a 96% yn y drefn honno).
- 3.121 Roedd y lefel argymhell yn uchel iawn ar draws pob math o ymwelydd, pob demograffeg a phob segment marchnata.
- 3.122 Ceir perthynas amlwg rhwng bodlonrwydd ar y cyfan a'r tebygolrwydd o ail-ymweld ac argymhell; mae'r gyfran o ymwelwyr sy'n aros o'r DU sy'n debygol o ddod yn ôl i Gymru a'r gyfran sy'n debygol o argymhell Cymru'n cynyddu wrth i fodlonrwydd ymwelwyr gynyddu (gweler Ffigur 3.24).

Ffigur 3.24: Bodlonrwydd ar y cyfan a thebygolrwydd o ail-ymweld â Chymru / argymhell Cymru 2019 - %



Sail: Arolwg Ymwelwyr Cymru 2019 – yr holl ymwelwyr sy'n aros o'r DU Cam II (1,642)

4. Casgliadau

- 4.1 Er bod proffil oedran ymwelwyr sy'n aros o'r DU â Chymru yn dal i fod yn hŷn na phroffil oedran poblogaeth y DU, mae Cymru'n denu mwy o ymwelwyr dan 55 oed yn awr nag yn y gorffennol. Un o'r cymhellion allweddol i bobl 16-34 oed sy'n ymweld â Chymru yw i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored a chwaraeon, sy'n awgrymu bod ymgyrchoedd Croeso Cymru i hyrwyddo twristiaeth gweithgareddau a gwyliau antur yn cael effaith.
- 4.2 Pobl iau sydd fwyaf tebygol o fod yn ymwelwyr newydd â Chymru, ond mae'r gyfran o ymwelwyr tro cyntaf yn 2019 wedi gostwng i oddeutu un ymhob pedwar. Mae'r gyfran sy'n cofio unrhyw hysbysebion, deunydd marchnata neu gyfathrebu ynglŷn â Chymru wedi gostwng hefyd (yn arbennig, hysbysebu ar y teledu a sôn am wefan Croeso Cymru). Mae hyn yn awgrymu bod marchnata diweddar wedi cael llai o effaith nag ymgyrchoedd cynharach i hyrwyddo Cymru fel lle i ymweld ag ef.
- 4.3 Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r mwyafrif o ymwelwyr sy'n aros o'r DU yn dod i Gymru ar gyfer gwyliau byr neu wyliau ychwanegol ac yn aros mewn un lleoliad. Mae cyfle felly i annog mwy o ymwelwyr sy'n aros (yn enwedig o rai segmentau penodol – *Pobl iau, 16-34, dim plant a Grŵp ôl-deulu, 35-54, dim plant*) i deithio o amgylch a gweld gwahanol rannau o'r wlad – dim ond 15% a wnaeth hynny yn 2019. Efallai y gellid cyflawni hyn trwy hyrwyddo llwybrau rhanbarthol neu lwybrau twristiaeth. Mae'r fenter 'Ffordd Cymru' ddiweddar a oedd yn hyrwyddo teulu o lwybrau cenedlaethol yn mynd i'r afael â'r mater hwn, gyda 6% o'r ymwelwyr sy'n aros o'r DU yn ymwybodol ohoni.
- 4.4 Er bod ymwelwyr o'r farn bod Cymru'n gyrchfan cynaliadwy i dwristiaid, defnyddio cerbydau preifat sy'n dominyddu o ran teithio i Gymru ar gyfer eu hymweliad ac o ran teithio o amgylch tra maent ar wyliau.
- 4.5 Yn 2019 ceir rhai newidiadau yn newidiadau llety ymwelwyr sy'n aros o'r DU. Am y tro cyntaf, roedd llety hunanarlwyo'n fwy poblogaidd na gwestai ymhlith ymwelwyr sy'n aros (er bod y defnydd o westai wedi bod yn gostwng yn raddol dros y naw mlynedd ddiwethaf). Mae'n debygol bod hyn yn cael ei sbarduno gan dwf Airbnb a marchnadoedd llety ar-lein eraill.

- 4.6 O ran y broses archebu, mae'r defnydd o wefannau llety trydydd parti megis Booking.com, Expedia and LateRooms.com yn dal ar gynnydd ymhlith ymwelwyr sy'n aros o'r DU. Ar ben hynny, mae sgoriau defnyddwyr ar-lein ar wefannau megis TripAdvisor yn bwysicach i ymwelwyr sy'n aros o'r DU wrth benderfynu ble i archebu na sgoriau swyddogol neu gyfanswm sêr llety yng Nghymru.
- 4.7 Mae gwybodaeth ddigidol yn dal i dyfu mewn poblogrwydd, o ran cynllunio ymweliadau cyn teithio ac yn ystod eu harhosiad. Mae dwy ran o dair o'r ymwelwyr sy'n aros o'r DU yn mynd ar-lein i helpu i gynllunio eu hymweliad; tra bo hanner yn mynd ar-lein tra ydynt ar wyliau yng Nghymru i chwilio am wybodaeth. Mae'r cynnydd yn y defnydd o ffynonellau gwybodaeth ar-lein tra bo ymwelwyr ar wyliau'n helpu i egluro'r bodlonrwydd isel ar gysylltedd digidol yng Nghymru (nad oedd ond traean o'r ymwelwyr yn fodlon arno).
- 4.8 Er bod Cymru'n cael sgôr uchel iawn ar y cyfan gan ymwelwyr sy'n aros o'r DU fel lle i ymweld ag ef, mae'r arolwg yn amlygu rhai meysydd lle gellid gwella profiad ymwelwyr. Meysydd lle mae bodlonrwydd ymwelwyr yn gymharol isel yw hygyrchedd ar gyfer pobl ag anabledd, glendid ac argaeledd toiledau cyhoeddus, siopa, cysylltedd digidol ac ansawdd ac argaeledd trafnidiaeth gyhoeddus. Mae'r rhain i gyd (ac eithrio cysylltedd digidol – a ychwanegwyd yn 2019) wedi cael eu nodi fel materion mewn arolygon blaenorol.
- 4.9 Er bod bodlonrwydd ymwelwyr ar atyniadau yng Nghymru'n uchel, roedd bodlonrwydd ar y profiad bwyta allan yng Nghymru'n isel, yn enwedig lle'r oedd defnyddio cynnyrch lleol neu Gymreig ar y fwydlen a'r ystod o leoedd i fwyta yn y cwestiwn.
- 4.10 Fe wnaeth y rhai a oedd yn llai na bodlon iawn ar Gymru ar y cyfan fel lle i ymweld ag ef (hynny yw, a roddodd sgôr is nag 8 allan o 10 i Gymru) rai awgrymiadau ynghylch meysydd i'w gwella hefyd: mwy o hysbysebu neu hyrwyddo digwyddiadau, gwell seilwaith trafnidiaeth, mwy o weithgareddau (yn enwedig mewn tywydd gwael), diffyg bwytai / opsiynau bwyd da a gwella amgylcheddau canol trefi.

- 4.11 Mae gan dwristiaeth yng Nghymru rôl allweddol o ran hwyluso lles – y prif ffactor a ddewiswyd o restr gan ymwelwyr sy'n aros o'r DU fel yr un a'u denodd i ddod i Gymru oedd i'w helpu i ymlacio a dianc rhag straeniau bywyd. Ar ben hynny, mae helpu pobl i ddianc rhag prysurdeb bywyd yn un o sbardunau allweddol bodlonrwydd ar Gymru fel lle i ymweld ag ef (ochr yn ochr ag ansawdd amgylchedd naturiol Cymru).

Atodiad A

Holiadur Cam 1

 2 Plas yr Amgueddfa, Caerdydd, CF10 3BG	B01919-1 CROESO CYMRU - AROLWG YMWELWYR 2019 CAM 1 (TERFYNOL)	AT DDIBENION Y SWYDDFA YN UNIG		AMSER Y CYFWELIAD (7) 10.00am – 12pm 1 12.01pm – 2pm 2 2.01pm – 4pm 3 4.01pm – 6pm 4	DYDD Y CYFWELIAD (8) Dydd gwaith 1 Penwythnos 2 Gŵyl y Banc 3	TYWYDD (9) Heulwen 1 Cymylog 2 Glaw 3 Arall 4
		Achos	Pwynt			
		(1-4)	(5-6)			

HOLWCH OEDOLION 16 OED+– DARLLENWCH YN UCHEL

Helo, fy enw i yw Rwy'n gweithio i Beaufort Research, cwmni ymchwil y farchnad sy'n gweithio ar ran Croeso Cymru. Rydym yn cynnal arolwg byr, 5 munud o hyd, gyda'r ymwelwyr sydd yma heddiw. Caiff hwn ei ddilyn gan gyfweiliad ffôn ymhen rhai wythnosau. Bydd popeth a ddywedwch yn hollol gyfrinachol.

A fydddech yn fodlon cymryd rhan yn y **ddau gam** o'r ymchwil?

OS YN ANGENRHEIDIOL, RHOWCH SICRHAD NA FYDDWN YN CEISIO GWERTHU DIM A BOD Y CYFWELIADAU YN CAEL EU CWBLHAU YN UNOL Â CHOD YMARFER Y GYMDEITHAS YMCHWIL Y FARCHNAD

Cyn i ni ddechrau, edrychwch ar y cerdyn hwn [crynodeb o'r Hysbysiad Preifatrwydd] - a gaf i wirio eich bod yn fodlon cymryd rhan yn yr arolwg hwn?

BYDDWN – yn fodlon cymryd rhan → **PARHEWCH**

NA FYDDWN – ddim yn fodlon cymryd rhan → **DIOLCH A CHLOI**

S1 Yn gyntaf, ydych chi'n siarad Cymraeg? (10) OS FELLY ydy hynny? Ydw – yn rhugl..... 1 → S2 Ydw – ond ddim yn rhugl..... 2 → S2 Nac ydw..... 3 → S3	(OS YN YMWELWYR AROS S3 – CODAU 1 NEU 2) C1 Am sawl noson i gyd byddwch chi'n aros yng Nghymru? NODWCH (14-15) _____
(OS YN SIARAD CYMRAEG) S2 Gallwn gynnal y cyfweiliad hwn yn Gymraeg (11) neu yn Saesneg – pa un fyddai'n well gennych chi? Saesneg..... 1 Cymraeg..... 2	(GOFYNNWCH I BAWB) C2 Ydych chi wedi dod ag anifail anwes gyda chi (16) ar eich ymweliad heddiw? GALLWCH AMLGODIO Ydw – ci/cŵn 1 Ydw – arall 2 Nac ydw 3
(GOFYNNWCH I BAWB) – CERDYN DANGOS A S3 Pa un o'r rhain sy'n disgrifio orau'r rheswm dros (12) eich ymweliad heddiw? Rhan o wyliau, yn aros yng Nghymru oddi cartref..... 1 → C1 Rhan o wyliau yn ymweld â ffrindiau/teulu, yn aros yng Nghymru oddi cartref..... 2 → C1 Ymweliad dydd â/yng Nghymru – am wibdaith undydd / pleserdaith / ymweliad anarferol..... 3 → S4 Ymweliad dydd â/yng Nghymru – am fusnes arferol neu siopa arferol..... 4 DIOLCH Ar fusnes..... 5 A I astudio..... 6 CHLOI Arall..... 7	C3 Ym mha wlad ydych chi'n byw? (17-20m) Cymru..... 1 Yr Iseldiroedd..... 8 Lloegr..... 2 Gwlad Belg..... 9 Yr Alban..... 3 Sbaen..... A Gogledd Iwerddon..... 4 Yr Eidal..... B Gweriniaeth Iwerddon.. 5 UDA..... C Ffrainc..... 6 Canada..... D Yr Almaen..... 7 Awstralia..... E Ewrop arall (nodwch) Y tu hwnt i Ewrop arall (nodwch) _____
GWIRIWCH Y CWOTÂU A PHARHEWCH	
(OS YN YMWELYDD DYDD S3 – COD 3) S4 Alla i holi, a fyddwch chi'n treulio tair awr neu fwy oddi cartref neu eich llety fel rhan o'ch ymweliad heddiw – gan gynnwys teithio? (13) Byddaf..... 1 → C2 Na fyddaf..... 2 → CLOI	(OS YN BYW YNG NGHYMURU) C4 Ym mha awdurdod lleol ydych chi'n byw? (21) Ynys Môn..... 1 Merthyr Tudful..... C Blaenau Gwent..... 2 Sir Fynwy..... D Pen-y-bont ar Ogwr... 3 Castell-nedd Port Talbot.... E Caerffili..... 4 Casnewydd..... F Caerdydd..... 5 Sir Benfro..... G Ceredigion..... 6 Powys..... H Sir Gaerfyrddin..... 7 Rhondda Cynon Taf..... I Conwy..... 8 Abertawe..... J Sir Ddinbych..... 9 Torfaen..... K Sir y Fflint..... A Bro Morgannwg..... L Gwynedd..... B Wrecsam..... M

(OS YN BYW Y TU ALLAN I GYMRU) C5 Ai dyma'ch ymweliad cyntaf â Chymru? (22) le.....1 Na.....2 Ddim yn gwybod/methu cofio.....3	C11 Statws gwaith (36) Gweithio llawn amser (30+ awr yr wythnos).....1 Gweithio rhan amser (< 29 awr yr wythnos).....2 Addysg llawn amser.....3 Wedi ymddeol.....4 Gofalu am y cartref.....5 Gofalwr llawn amser.....6 Hyfforddiant.....7 Arall.....8C11
(OS YN BYW YNG NGHYMRU) C6 Ai dyma'ch ymweliad cyntaf â'r rhan hon o Gymru? (23) le.....1 Na.....2 Ddim yn gwybod/methu cofio.....3	C12 Statws yn y cartref (37) DARLLENWCH YN UCHEL – Y Prif Enillydd Incwm yw'r aelod o'r cartref gyda'r incwm mwyaf, boed trwy gyflogaeth, pensiynau, buddiannau'r wladwriaeth, buddsoddiadau neu unrhyw ffynhonnell arall. Prif Enillydd Incwm.....1 Oedolyn arall (16 oed+).....2
(GOFYNNWCH I BAWB) – CERDYN DANGOS B C7 Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau eich grŵp ar yr ymweliad hwn? (24) COD UNIGOL Ymweld ar fy mhen fy hun.....1 Cwpl.....2 Teulu – gyda phlant bach.....3 Teulu – gyda phlant hŷn.....4 Teulu – gyda phlant bach a hŷn.....5 Teulu – heb blant.....6 Ffrindiau.....7 Grŵp wedi'i drefnu/Cymdeithas.....8 Arall.....9	C13 Swydd y Prif Enillydd Incwm (Swydd ddiwethaf os yw wedi ymddeol) Swydd _____ Safle / gradd _____
C8 Sawl person sydd yn eich grŵp ymweliad heddiw, gan gynnwys chi eich hun? NODWCH NIFER YR OEDOLION A PHLANT Oedolion: Plant:	C14 Graddfa gymdeithasol (38) AB.....1 C1.....2 C2.....3 DE.....4
C9 Rhyw (31) Gwryw.....1 Benyw.....2 Arall.....3 Mae'n well gen i beidio â dweud.....4	
C10 Oed YSGRIFENNU YN YR OEDRAN EXACT _____(32) OS GWRTHOD, GOFYNNWCH AM BAND OEDRAN 16-19.....1 20-24.....2 25-34.....3 35-44.....4 45-54.....5 55-64.....6 65-74.....7 75-84.....8 85+.....9 Gwrthod ateb.....A	

CERDYN DANGOS D
C16 Os gennych chi neu rywun arall yn eich grŵp un o'r cyflyrau neu ddiffygion canlynol?
 Gallwch ddweud wrthyf y llythyren wrth ochr bob un os dymunwch. (40-43m)
GALLWCH AMLGODIO

A	Diffyg symudedd (defnyddiwr cadair olwyn).....	1
B	Diffyg symudedd (ddim yn defnyddio cadair olwyn)...	2
C	Dall.....	3
D	Gwan eich golwg.....	4
E	Byddar.....	5
F	Colli clyw yn rhannol.....	6
